Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddCYPE@senedd.cymru

24 Mawrth 2021

Annwyl Lynne,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi am hynt y gwaith mewn perthynas â dau o argymhellion eich adolygiad o Hawliau Plant yng Nghymru, a gyhoeddwyd yr haf diwethaf.

Rydym wedi cyhoeddi diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn dilyn cyhoeddi adroddiad Arsylwi Terfynol 2016 Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i Deyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Mae'r adroddiad hwnnw'n ymdrin ag argymhelliad 13 yn eich adroddiad ar Hawliau Plant.

Roeddwn i hefyd am eich hysbysu bod Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at Brif Weinidog y Deyrnas Unedig (DU) ynghylch cadarnhad Llywodraeth y DU o'r Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar Weithdrefn Gyfathrebu i roi'r hawl i blant unigol gyflwyno sylwadau'n uniongyrchol i'r Cenhedloedd Unedig. Mae hyn yn ymwneud ag argymhelliad 11 yn adroddiad y Pwyllgor.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau unwaith eto am eu hadroddiad, ac rydym yn gwneud defnydd helaeth ohono wrth fwrw ymlaen ag agenda hawliau plant yng Nghymru.

Yn gywir,

Julie

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hawliau Plant Cymru

Children's Rights Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diweddariad Llywodraeth Cymru ar gynnydd yn dilyn cyhoeddi adroddiad Arsylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i Deyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon 2016

Mawrth 2021

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42282 ISBN digidol 978-1-80195-186-9

Cyflwyniad

Yn 2016, cyhoeddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ei bumed adroddiad cyfnodol ar Adroddiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r cyfle i gyhoeddi trosolwg o'r cynnydd.

Mae adroddiad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn cynnwys argymhellion ar gyfer meysydd datganoledig a meysydd heb eu datganoli. Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar meysydd polisi y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt. Nodir drwy gydol yr adroddiad hwn lle nad yw'r argymhellion yn ymwneud â Llywodraeth Cymru neu eu bod yn gysylltiedig â meysydd heb eu datganoli.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn meysydd allweddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Ym mis Mawrth 2020, cafodd Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 Gydsyniad Brenhinol. Daw'r Ddeddf i rym ym mis Mawrth 2022 a bydd yn gwahardd cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Ym mis Ionawr 2020, pasiodd Senedd Cymru Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. Mae'r Ddeddf hon yn lleihau'r oedran pleidleisio i 16 ac yn grymuso pobl dros 16 i ymgysylltu â'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd.

Mae dau adroddiad cydymffurfio wedi'u cyhoeddi yn ystod y cyfnod adrodd hwn hefyd; y cyntaf yn 2018 ac ym mis Chwefror 2021, sy'n amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol.

Rydym wrthi'n ymgynghori ynghylch Cynllun Hawliau Plant2021 diwygiedig, sy'n nodi'r trefniadau sydd gan Weinidogion Cymru ar waith i gyflawni'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau.

Mae cylch nesaf Arsylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig wedi dechrau a bydd rhestr derfynol o argymhellion yn cael ei chyflwyno yn 2022. Mae Llywodraeth Cymru'n edrych ymlaen at gael yr argymhellion hynny.

Sylwer: cyflwynir argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn yr iaith wreiddiol.

Arsylwadau ac Argymhellion Terfynol y Cenhedloedd Unedig 2016

1. Mesurau Gweithredu Cyffredinol

Mae'r grŵp hwn o argymhellion yn ymwneud ag erthyglau 4, 42 a 44 (6) o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'n delio â'r strwythurau a'r adnoddau i weithredu CCUHP.

1.1 Deddfwriaeth

The Committee recommends that the State party:

(a) Expedite bringing in line with the Convention its domestic legislation, at the national and devolved levels and in the overseas territories and the Crown dependencies, in order to ensure that the principles and provisions of the Convention are directly applicable and justiciable under domestic law;

(b) Expedite the enactment of a Bill of Rights for Northern Ireland, agreed under the Good Friday Agreement.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (y Mesur) yn mynnu bod Gweinidogion Cymru'n rhoi sylw dyledus i CCUHP a'i brotocolau dewisol wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau.

Mae Cynllun Hawliau Plant 2014 yn nodi'r trefniadau sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith er mwyn i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i hawliau plant wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau.

1.2 Strategaeth a pholisi cynhwysfawr

The Committee recommends that the State party:

(a) Revise the UK-wide strategy, Working together, achieving more (2009) to cover all areas of the Convention and ensure its full implementation;

(b) Adopt comprehensive action plans for the implementation of the above-mentioned strategy in England and Northern Ireland;

(c) In Scotland, ensure the full implementation of the action plan Do the Right Thing (2009) and the National Action Plan for Human Rights (2013-2017);

(d) In Wales, ensure the full implementation of the Programme for Children and Young People (2015).

In doing so, the Committee recommends that the State party allocate sufficient human, technical and financial resources, set up clear timelines as well as a monitoring and evaluation framework for the implementation of the strategy and the action plans, and pay special attention to children belonging to the most vulnerable groups.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Yn dilyn etholiad 2016, cafodd Rhaglen Lywodraethu newydd ei datblygu gan Lywodraeth Cymru, *Symud Cymru Ymlaen*; mae Hawliau Plant yn rhan annatod o'r rhaglen honno.

1.3 Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

The Committee recommends that the State party:

(a) Introduce a statutory obligation at national and devolved levels to systematically conduct a child rights impact assessment when developing laws and policies affecting children, including in international development cooperation;

(b) Publish the results of such assessments and demonstrate how they have been taken into consideration in the proposed laws and policies.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant

Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio proses Asesiad Effaith Integredig i gynnal asesiad cyflawn o effaith penderfyniadau arfaethedig, gan gynnwys yr effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn rhan allweddol o'r Asesiad Effaith Integredig. Mae disgwyl i swyddogion Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswydd sylw dyledus. Ni fydd pob penderfyniad a cham gweithredu Gweinidogion Cymru'n berthnasol i blant a phobl ifanc, ac felly ni fyddant yn destun Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Pan wneir penderfyniad i beidio â chynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig ehangach, rhaid cofnodi'r rheswm.

Pan fydd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gynnal, mae'n darparu fframwaith ar gyfer ystyried a chofnodi a yw cynigion y polisi'n cefnogi hawliau plant a phobl ifanc. Mae'n galluogi swyddogion i ystyried beth mae'r polisi/deddfwriaeth/cyngor yn ceisio ei gyflawni, yr effeithiau posibl (cadarnhaol a negyddol), effeithiau (neu ganlyniad anfwriadol) y polisi/deddfwriaeth/cyngor ar wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc, ac a ellir cymryd unrhyw gamau i leihau, ddileu neu liniaru'r effeithiau hynny os oes modd.

I wneud penderfyniadau asesiadau o effaith yn fwy tryloyw ac ar gael i'r cyhoedd, mae pob Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ers 1 Ionawr 2020 wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru[1].

[1] https://llyw.cymru/cyhoeddiadau Gallwch chi chwilio drwy'r holl gyhoeddiadau o'r math hwn gan ddefnyddio'r geiriau allweddol, asesiad o'r effaith ar hawliau plant

1.4 Cyd-drefnu

The Committee reiterates its previous recommendation that the State party ensure effective coordination of the implementation of the Convention throughout the State party. To this end, the Committee recommends that the State party:

(a) In each of the devolved administrations, Overseas Territories and the Crown Dependencies, establish an appropriate statutory body at a high interministerial level with a clear mandate and sufficient authority to coordinate all activities across relevant sectors related to the implementation of the Convention;

(b) Allocate sufficient human, technical and financial resources to the said coordinating bodies for their effective operation;

(c) Strengthen coordination and evaluation of the implementation of the Convention at the national level.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Gweinidogion Cymru a'r Cabinet

Mae'r ddyletswydd 'sylw dyledus' a nodir yn adran 1 o'r Mesur yn berthnasol i holl Weinidogion Cymru pan fyddant yn arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau. Mae hawliau plant a phobl ifanc yn dal ym mlaen meddwl y Cabinet ac yn rhan annatod o'i phroses llunio polisïau gyfunol.

Mae gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldebau penodol mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc, a'u hawliau.

Y Gangen Plant

Mae'r Gangen Plant yn rhan o'r Is-adran Plant a Theuluoedd a'i rôl yw cynnig cyngor a chyfarwyddyd arbenigol ar bob elfen o hawliau plant ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r Gangen yn arwain y gweithgareddau canlynol:

- Helpu swyddogion i ddeall CCUHP a'i Brotocolau Dewisol, a'u rôl yn sicrhau bod y ddyletswydd sylw dyledus yn cael ei chyflawni;
- Arwain ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiadau CCUHP ac i argymhellion ac Arsylwadau Terfynol y Cenhedloedd Unedig;
- Paratoi a diweddaru'r Cynllun Hawliau Plant;
- Adrodd ar gydymffurfedd â'r ddyletswydd o dan adran un o'r Mesur;
- Darparu cymorth i swyddogion allu ymgysylltu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc, a'u helpu i baratoi dogfennau sy'n addas i blant;
- Darparu cyngor a chymorth ynghylch Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant;
- Codi ymwybyddiaeth o CCUHP.

Arbenigedd allanol i gefnogi hawliau plant

Mae Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant wedi cael ei sefydlu. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, ac UNICEF UK. Mae'r fforwm hwn yn rhoi cyfle i swyddogion Llywodraeth Cymru gael cyngor allanol ac arbenigol parhaus ar sut mae polisïau Llywodraeth Cymru'n cefnogi hawliau plant.

1.5 Dyrannu Adnoddau

The Committee is seriously concerned at the effects that recent fiscal policies and allocation of resources have had in contributing to inequality in children's enjoyment of their rights, disproportionately affecting children in disadvantaged situations.

In accordance with article 4 of the Convention and Sustainable Development Goal 10, Targets 10.2 and 10.4, the Committee urges the State party to allocate the maximum extent of available resources for the implementation of children's rights, with a special focus on eradicating child poverty and reducing inequalities within and across all jurisdictions. In this endeavour, the Committee recommends that the State party:

(a) Utilize a child-rights approach in the elaboration of the State budget, by implementing a tracking system for the allocation and use of resources for children throughout the budget;

(b) Ensure transparent and participatory budgeting through public dialogue, including with children;

(c) Define budgetary lines for children in disadvantaged or vulnerable situations that may require affirmative social measures and make sure that those budgetary lines are protected even in situations of economic recessions;

(d) Regularly conduct child rights impact assessments of budget and economic decision-making processes and outcomes, including austerity measures, in areas that are directly or indirectly related to children's rights;

(e) Establish mechanisms to monitor and evaluate the adequacy, efficacy and equitability of the distribution of resources allocated to the implementation of the Convention.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Cyllidebau ac Adnoddau

Mae ein penderfyniadau cyllidebol yn seiliedig ar flaenoriaethau a nodir y llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio dull gwerthuso ar gyfer asesu'r effaith ar benderfyniadau cyllidebol blynyddol Llywodraeth Cymru, yn unol â'n cyfrifoldeb i ystyried penderfyniadau cyllidebol o nifer o safbwyntiau. Mae ein hasesiad effaith integredig strategol o'r gyllideb flynyddol yn ystyried amrywiaeth o effeithiau yn llawn, gan gynnwys hawliau plant, anfanteision economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg, a chydraddoldeb. Felly, mae dull integredig yn ein

galluogi i ddeall effaith penderfyniadau ar wahanol grwpiau o bobl, fel plant a phobl ifanc, ac ar feysydd fel yr amgylchedd, yn fwy effeithiol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r egwyddor datblygu cynaliadwy a phum ffordd o weithio sy'n sylfaen ar gyfer cyflawni ein hamcanion llesiant.

Rydym wedi ymrwymo i archwilio sut mae gwybodaeth am benderfyniadau cyllidebol yng nghyd-destun effeithiau penodol – fel Hawliau Plant – yn gallu bod yn fwy tryloyw yn y dyfodol, fel y nodir yn ein Cynllun Gwella'r Gyllideb.

Yn dilyn yr adolygiad o dystiolaeth yn 2017, a gomisiynwyd gennym mewn cysylltiad â chyllidebau cyfranogol, fe wnaethom drefnu nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu i fesur lefel yr ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o gyllideb Llywodraeth Cymru, ac i drafod sut gallai pobl yng Nghymru gyfrannu at gyllidebu. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau i bobl ifanc ar y cyd â Plant yng Nghymru.

Wedi hynny, mae Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid, wedi achub ar gyfleoedd i ymweld ag ysgolion er mwyn trafod sut mae Llywodraeth Cymru'n codi ei harian ac ar beth mae'n cael ei wario. Mae'r Gweinidog hefyd wedi ymweld ag amrywiaeth o leoliadau sy'n cael arian cyhoeddus ar hyd a lled Cymru i glywed am yr heriau a'r cyfleoedd cyffredin sy'n wynebu'r lleoliadau hyn. Mae hyn wedi cynnwys canolfannau elusennol ledled Cymru, sy'n darparu amrywiaeth o gymorth i deuluoedd mewn cymunedau lleol, gan gynnwys gwasanaethau dan arweiniad pobl ifanc a chanolfan Gyrfa Cymru.

Ers 2019, rydym hefyd wedi cyhoeddi Cyllideb hygyrch, sydd wedi'i hanelu at blant a phobl ifanc, er mwyn cyfleu negeseuon allweddol y gyllideb yn syml. Gan adeiladu ar y gweithgareddau hyd yma, byddwn yn ystyried cyfleoedd yn y dyfodol i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn 2021-22 fel rhan o'n huchelgeisiau ehangach i ymgysylltu ynghylch trethi a'r gyllideb, fel y nodir yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb.

1.6 Casglu Data

The Committee recommends that the government of Northern Ireland expedite the finalization of a Child Rights Indicator Framework, covering all areas of the Convention and taking into account the conceptual and methodological framework set out in the Office of the United Nations High Commissioner for Human Rights (OHCHR) publication entitled Human Rights Indicators: A Guide to Measurement and Implementation.

I Ogledd Iwerddon y mae'r argymhelliad hwn yn berthnasol.

1.7 Monitro Annibynnol

The Committee welcomes the increased independence of the Children's Commissioners in the four devolved administrations of the State party and the many initiatives that they have taken to ensure the promotion and protection of the rights of the child. Nevertheless, the Committee is concerned that the powers of the Commissioners in Northern Ireland and Wales are still limited and that the Commissioner in Scotland has not started exercising its mandate to conduct investigations on behalf of individual children.

With reference to the Committee's general comment No. 2 (2003) on general measures of implementation, the Committee recommends that the State party:

(a) Further strengthen the independence of established Children's Commissioners, in line with the Paris Principles, and enable them, inter alia, to receive and investigate complaints from or on behalf of children concerning violations of their rights;

(b) Allocate to the Commissioners in all jurisdictions the necessary human and financial resources in order to carry out their mandate in an effective and coordinated manner.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Comisiynydd Plant Cymru

Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru statws corfforaeth undyn ac mae'n sefydliad hawliau dynol annibynnol. Yn 2014, penodwyd y Comisiynydd gan y Prif Weinidog yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored, a oedd yn cynnwys Panel gyda chynrychiolaeth trawsbleidiol a phobl ifanc. Er mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw ariannu, ar Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru y mae'r cyfrifoldeb dros graffu ac atebolrwydd. Mae'r Comisiynydd, fel eraill ym mywyd cyhoeddus, yn atebol i'r cyhoedd drwy Bwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd a'i Phwyllgorau ar wahanol bynciau.

Cyllideb flynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2020/21 oedd £1,579,895. Mae'r gyllideb yn darparu ar gyfer costau swyddfa'r Comisiynydd a'r adnoddau sydd eu hangen arni i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

1.8 Cydweithredu rhyngwladol

In the context of international development cooperation the Committee is concerned about the State party's funding of low-fee, private and informal schools run by for-profit business enterprises in recipient States. Rapid increase in the number of such schools may contribute to sub-standard education, less investment in free and quality public schools, and deepened inequalities in the recipient countries, leaving behind children who cannot afford even low-fee schools.

The Committee recommends that the State party ensure that its international development cooperation supports the recipient States in guaranteeing the right to free compulsory primary education for all, by prioritizing free and quality primary education in public schools, refraining from funding for-profit private schools, and facilitating registration and regulation of private schools.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Cymru ac Affrica

Nid yw datblygu rhyngwladol wedi'i ddatganoli, felly Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol amdano. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ac addysg gynradd am ddim i bawb. Mae rhaglen Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai grantiau bach i gefnogi

ysgolion gwladol penodol yn Affrica Is-Sahara sy'n gweithio mewn partneriaeth â grwpiau o Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n rhannu pryderon y pwyllgor ynglŷn â nifer yr ysgolion lle mae'n rhaid talu ffioedd mewn gwledydd fel Uganda.

1.9 Hawliau plant a'r sector busnes

With reference to its General Comment No. 16 (2013) on State obligations regarding the impact of business on children's rights, the Committee recommends that the State party:

(a) Integrate an explicit focus on children's rights, including the requirement for businesses to undertake child-rights due diligence, in the revised version of its first National Action Plan on Business and Human Rights;

(b) Establish and implement regulations to ensure that the business sector, including in the context of public procurement, complies with the rights of the child.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Hawliau Plant a Busnes Cymru

Mae Busnes Cymru wrthi'n diweddaru ei bresenoldeb ar-lein i dynnu sylw at bwysigrwydd CCUHP i fusnesau yng Nghymru, ac Erthygl 32 yn benodol.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru'r awdurdod i sefydlu rheoliadau busnes, na rheoliadau caffael cyhoeddus. Fodd bynnag, Llywodraeth Cymru sy'n pennu polisi caffael Cymru a drwy set gwestiynau'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr, mae'n rhaid i gynigwyr ateb cwestiynau sy'n ymwneud ag atal llygredd.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio Cod Ymarfer gwirfoddol ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae hwn wedi cael ei ddylunio i'r holl sefydliadau â chadwyn gyflenwi gan gynnwys cyrff yn y sector cyhoeddus, busnesau a sefydliadau trydydd sector ymrwymo i 12 cam gweithredu sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael ag arferion anghyfreithlon ac anfoesol.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried deddfwriaeth mewn perthynas â chaffael yn y dyfodol.

Polisi Prentisiaethau

Mae sicrhau bod pobl ifanc yn ystyried prentisiaethau yn ddewis amgen ymarferol i Safon Uwch yn elfen allweddol o'n polisi prentisiaethau. Nod ein menter Troi Eich Llaw yw hybu rhagor o ymgysylltiad ymysg plant ysgol mewn addysg alwedigaethol, gan gynnwys prentisiaethau. Mae'n cynnwys trefnu digwyddiadau mewn ysgolion a ffeiriau gyrfaoedd, gan annog gyrfaoedd galwedigaethol a dewisiadau prentisiaethau. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth ymysg plant ysgol o brentisiaethau fel dewis gyrfa.

2. Diffiniad o blentyn (Erthygl 1 o'r Confensiwn)

The Committee recommends that the State party raise the minimum age of marriage to 18 years across all devolved administrations, Overseas Territories and Crown Dependencies.

Nid yw'r isafswm oed ar gyfer priodi wedi'i ddatganoli.

3. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r grŵp hwn o argymhellion yn ymwneud ag erthyglau 2, 3, 6 a 12. Mae'r grŵp hwn yn delio â sicrhau'r hawliau heb wahaniaethu; i les pennaf y plentyn fod yn brif ystyriaeth; yr hawl i fywyd, i oroesi ac i ddatblygu; a pharchu barn y plentyn.

3.1 Peidio â gwahaniaethu

The Committee is concerned that:

(a) A number of provisions under the Equality Act (2010) exempt children from the protection against age discrimination, and in Northern Ireland, the proposed legislation on age discrimination excludes children under 16 years of age;

(b) Counter-terrorism measures do not enjoy public confidence due to the lack of transparency and they are widely perceived to have a discriminatory or stigmatizing effect on children, in particular Muslim children;

(c) Many children in certain groups, including Roma, Gypsy and Traveller children, children of other ethnic minorities, children with disabilities, children in care, migrant, asylum-seeking and refugee children, as well as lesbian, gay, bisexual, transgender and intersex children (LBGTI), continue to experience discrimination and social stigmatization, including through the media.

The Committee recommends that the State party:

(a) Consider the possibility of expanding legislation to provide protection of all children under 18 years of age against discrimination on the grounds of their age;

(b) Strengthen the oversight mechanism, including regular independent reviews, to assess and ensure that the implementation of the counter-terrorism and counter-extremism measures, including the Prevent Strategy (2011), will not have a discriminatory or stigmatising impact on any group of children;

(c) Strengthen its awareness-raising and other preventive activities against discrimination and stigmatization, and, if necessary, take temporary special measures for the benefit of children in vulnerable situations.

The Committee recalls its previous recommendation that the State party take urgent measures to address the "intolerance of childhood" and general negative public

attitude towards children, especially adolescents, within society, including in the media.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Atal

Gan mai strategaeth y DU yw hon, Llywodraeth y DU ddylai ystyried yr argymhellion hyn. Fodd bynnag, mae'r strwythurau llywodraethu CONTEST wedi cael eu hadnewyddu yng Nghymru yn ddiweddar. Fel rhan o'r strwythur gadarn, sydd wedi'i hadnewyddu, mae Bwrdd Strategol PREVENT yn cynnig fforwm i bartneriaid godi pryderon neu heriau, gyda gweithdrefn uwchgyfeirio effeithiol y cytunir arni ar gyfer pasio unrhyw fater i Fwrdd Prevent y DU ei ystyried a/neu weithredu arno.

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

Bydd Llywodraeth Cymru yn lansio Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru cyn diwedd mis Mawrth 2021. Nod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yw creu Cymru wrth-hiliol, a thrwy hynny roi terfyn ar hiliaeth yng Nghymru.

Bydd y cynllun yn gynhwysol ac yn eang, gan gwmpasu materion sy'n effeithio ar bob grŵp, megis hiliaeth strwythurol a systemig. Bydd hefyd yn mynd i'r afael â gofynion mwy penodol pobl sy'n rhannu mwy nag un nodwedd warchodedig. Bydd yn ein helpu i ddeall effaith rhyngblethedd drwy fynd i'r afael â'r materion sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc o grwpiau penodol drwy ystyried rhywedd, anabledd, oedran, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol a mynegiant a hunaniaeth o ran rhywedd.

Mae'r Cynllun wedi'i lunio ar y cyd â phobl ifanc. Mewn cydweithrediad â'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, rydym wedi cynnal sesiynau gosod gweledigaeth gyda phlant a phobl ifanc Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i rannu eu safbwyntiau er mwyn llywio gweledigaeth, cenhadaeth a diben y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Roedd plant a phobl ifanc hefyd yn rhan o waith ymgysylltu â'r gymuned ledled y wlad, a gynhaliwyd gan grwpiau llawr gwlad.

Nod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a gweithgareddau cysylltiedig yw gwella mynediad pob plentyn at ei hawliau neu at wasanaethau a/neu adnoddau sy'n rhoi mynediad at hawliau. Galluogi plant i gymryd rhan a defnyddio eu hawliau i'r eithaf.

3.2 Peidio â gwahaniaethu

The Committee is concerned that, despite some improvements, legal discrimination against certain children remains in Overseas Territories.

The Committee recommends that the Government of UK further encourage the governments of Overseas Territories to fully abolish discrimination under the law against children who are "non-belongers", including migrant children, and children born out of wedlock.

Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â thiriogaethau tramor, felly dylai Llywodraeth y DU ei ystyried.

3.3 Lles pennaf y plentyn

The Committee regrets that the right of the child to have his or her best interests taken as a primary consideration is still not reflected in all legislative and policy matters and judicial decisions affecting children, especially in the area of alternative care, child welfare, immigration, asylum and refugee status, criminal justice, and in the armed forces. Furthermore, in some Overseas Territories, there is no legal provision to guarantee this right.

With reference to its general comment No 14 (2013) on the right of the child to have his or her best interests taken as a primary consideration, the Committee recommends that the State party, in all parts of its territory:

(a) Ensure that this right is appropriately integrated and consistently interpreted and applied in all legislative, administrative and judicial proceedings and decisions as well as in all policies, programmes and projects that are relevant to and have an impact on children;

(b) Develop procedures and criteria to provide guidance to all relevant persons in authority for determining the best interests of the child in every area and for giving it due weight as a primary consideration.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Llesiant Plant

Yn adran 5 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae dyletswydd i hybu llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Hefyd mae dyletswydd yn adran 6 i unrhyw un sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant y mae angen gofal a chymorth arnynt, plant sy'n ofalwyr ac unigolion y cyflawnir swyddogaethau mewn perthynas â hwy o dan Ran 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) roi sylw dyledus i Ran 1 o CCUHP.

Yn yr un modd, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP a'i Brotocolau dewisol wrth arfer eu swyddogaethau, ac felly mae'n sicrhau y rhoddir sylw dyledus ar lefel strategol, ac yn darparu fframwaith ar gyfer pob penderfyniad, gan gynnwys rhai polisi a deddfwriaethol.

3.4 Yr hawl i fywyd, i oroesi ac i ddatblygu

The Committee is concerned that:

(a) Research indicates that the infant and child mortality in the State party, including suicide, is linked with the level of social and economic deprivation;

(b) Mechanisms for reviews of any unexpected death or serious injury involving children have not been established or operationalized in most parts of the State party.

The Committee recommends that the State party:

(a) Address underlying determinants of infant and child mortality, including social and economic deprivation and inequality;

(b) Introduce automatic, independent and public reviews of unexpected death or serious injury involving children, including in custody, care and mental health care institutions in all the territory of the State party

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Rhaglen Plant Iach Cymru

Wrth wraidd system y blynyddoedd cynnar mae'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal mamolaeth ac ymweliadau iechyd i bawb. Mae Rhaglen Plant Iach Cymru'n nodi ystod gyffredinol o gysylltiadau allweddol rhwng teuluoedd â phlant 0-7 oed ac ymwelwyr iechyd. Mae'n berthnasol i bob teulu yng Nghymru, beth bynnag fo'r angen. Mae'r cysylltiadau cyffredinol hyn yn ymwneud â thri maes ymyrryd; sgrinio, imiwneiddio a monitro, a chefnogi datblygiad plant.

Mae Rhaglen Plant Iach Cymru'n cynnwys ystod gyson o fesurau atal ac ymyrryd yn gynnar sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a chyngor a chyfarwyddyd i gefnogi magu plant a dewisiadau byw'n iach. Mae'r Rhaglen yn nodi pa gysylltiadau cynlluniedig y gall plant a'u teuluoedd eu disgwyl gan eu Bwrdd Iechyd; o'r adeg trosglwyddo o wasanaeth mamolaeth i'r blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol.

Cynhelir asesiad unigol gan fydwragedd a gwasanaethau ymweliadau iechyd i sicrhau bod y gwasanaethau cywir ar gael i gefnogi'r plentyn a'r teulu. Mae hyn wedi parhau drwy gydol y pandemig (2020-2021). Mae cyswllt yr ymwelydd iechyd yn cynnwys ymyriadau dwys a gwell i'r teuluoedd a'r plant hynny lle mae'r angen yn uwch. Mae'r ymwelydd iechyd hefyd yn defnyddio'r Adnodd Offeryn Asesu Cydnerthedd y Teulu (Family Resilience Assessment Instrument Tool (FRAIT)) i fesur cydnerthedd y teulu (ffactorau diogelu cadarnhaol) yn hytrach na'u hanghenion (diffygion y ffactorau diogelu), sy'n helpu i bennu'r pecyn cymorth gorau i'r teulu.

Mae byrddau perfformiad mamolaeth blynyddol gyda phob un o'r 7 Bwrdd Iechyd yn cael eu cadeirio gan y Prif Swyddog Nyrsio. Mae'r dangosyddion perfformiad yn cynnwys: cyfraddau ysmygu ac effeithiolrwydd rhaglenni rhoi'r gorau i ysmygu, atal cynnydd gormodol mewn pwysau yn ystod beichiogrwydd, pwysau geni isel, dechrau a pharhau i fwydo ar y fron.

Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen blynyddoedd cynnar wedi'i thargedu sy'n anelu at wneud gwahaniaeth tyngedfennol i gyfleoedd bywyd plant 0 i 4 oed yn yr ardaloedd mwy difreintiedig y mae'n gweithredu ynddynt. Mae'n cynnwys pedair elfen graidd;

gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel wedi'i ariannu; cymorth magu plant, cymorth dwys gan ymwelydd iechyd, a chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Prif swyddogaeth ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg yw cefnogi'r teulu yn y cartref, gan asesu'r plentyn a'r teulu. Mae'r rhaglen iechyd Dechrau'n Deg yn pennu rhaglen gyffredinol uwch o ymyriadau y dylid ei darparu i holl deuluoedd Dechrau'n Deg. Gall teulu sy'n elwa ar wasanaethau iechyd Dechrau'n Deg ddisgwyl o leiaf saith 'cyswllt' ychwanegol gan eu hymwelydd iechyd, ar ben Rhaglen Plant Iach Cymru. Mae hybu negeseuon allweddol ynghylch iechyd y cyhoedd a ffordd iach o fyw yn rhan allweddol o gymorth iechyd ychwanegol Dechrau'n Deg sy'n cael ei gynnig gan ymwelwyr iechyd a'r gweithlu ehangach.

Adolygiad o Farwolaethau Plant

Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod. Cafodd yr Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod ei adnewyddu yn 2018. Ei nod yw sicrhau bod yr ymateb yn ddiogel, yn gyson ac yn sensitif i'r rhai dan sylw, a bod cysondeb ledled Cymru yn yr ymateb amlasiantaeth i farwolaethau annisgwyl plant. Mae hwn yn ymateb gweithdrefnol amlasiantaeth sy'n bwriadu sicrhau safon sylfaenol ledled Cymru, ac nid yw'n benodol i asiantaeth na disgyblaeth. Mae'n amlinellu beth sydd angen ei gyflawni ac yn darparu awgrymiadau bras ynghylch rôl asiantaethau.

Mae'n gosod safon sylfaenol ar gyfer ymateb i farwolaethau annisgwyl yn ystod babandod a phlentyndod. Mae'n disgrifio'r broses o gyfathrebu, cymryd camau cydweithredol a rhannu gwybodaeth yn dilyn marwolaeth annisgwyl plentyn. Nod yr Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod yw sicrhau bod yr ymateb yn ddiogel, yn gyson ac yn sensitif i'r rhai dan sylw, a bod cysondeb ledled Cymru yn yr ymateb amlasiantaeth i farwolaethau annisgwyl plant.

Cafodd Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 2, Adolygiadau Ymarfer Plant ei gyhoeddi yn 2016. Mae'r canllawiau wedi'u hanelu at bob Bwrdd Diogelu Plant a'i asiantaethau partner. Pwrpas cyffredinol y system adolygu yw hybu diwylliant cadarnhaol o ddysgu ac adolygu amlasiantaeth mewn cysylltiad â diogelu plant mewn ardaloedd lleol, sef cyfrifoldeb Byrddau ac asiantaethau partner. Mae'n cydnabod effaith amgylchiadau enbyd marwolaethau plant nad ydynt yn ddamwain neu niwed difrifol i blant ar deuluoedd ac ar staff, ac yn darparu cyfleoedd i adolygu achosion difrifol mewn diwylliant teg a chyfiawn.

3.5 Parchu barn y plentyn

The Committee is concerned that:

(a) Children's views are not systematically heard in policy-making on issues that affect them;

(b) The reforms concerning the reduction of legal aid in all four jurisdictions appear to have a negative impact on the right of children to be heard in judicial and administrative proceedings affecting them;

(c) Youth parliaments have not been established or operationalized in Northern Ireland, Wales, Montserrat, Turks and Caicos and Jersey;

(d) Many children feel that they are not listened to by their social workers, reviewing officers, paid carers, judges, personnel working with children in conflict with the law, or other professionals, in matters affecting them, including in family proceedings.

With reference to its general comment No.12 (2009) on the right of the child to be heard, the Committee recommends that the State party:

(a) Establish structures for the active and meaningful participation of children and give due weight to their views in designing laws, policies, programmes and services at the local and national level, including in relation to discrimination, violence, sexual exploitation and abuse, harmful practices, alternative care, sexual and reproductive education, leisure and play. Particular attention should be paid to involving younger children and children in vulnerable situations, such as children with disabilities;

(b) Assess the impact and expedite the review of the reforms on legal aid in England, Wales and Scotland, in order to ensure that such reforms do not negatively affect children's access to justice, and guarantee effective participation of children in such assessment and review;

(c) Expedite the establishment of Youth Parliaments in all devolved administrations and territories as permanent fora for children's effective engagement with national legislative processes on issues that affect them;

(d) Ensure that children are not only heard but also listened to and their views given due weight by all professionals working with children.

The Committee notes increasing demands from children for a right to vote from the age of 16 years and that in Scotland, voting age has been extended to 16 and 17 year olds for local and Scottish Parliament elections.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

<u>Cyfranogiad Plant</u>

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid craidd i Plant yng Nghymru – drwy Cymru Ifanc – i alluogi llais plant a phobl ifanc i gael ei gynnwys yn y cylch llunio polisïau. Mae'r rhaglen yn darparu adborth rhagweithiol ac adweithiol i Weinidogion a swyddogion.

Yn rhagweithiol, mae Bwrdd Prosiect Cymru Ifanc – sy'n cynnwys aelodaeth amrywiol o bobl ifanc o fforymau ieuenctid awdurdodau lleol ledled Cymru – yn cwrdd bob mis i drafod y materion sy'n flaenoriaeth i bobl ifanc. Mae staff Plant yng Nghymru'n rhannu'r themâu sy'n dod i'r amlwg yn y cyfarfodydd hyn â swyddogion Llywodraeth Cymru.

Yn adweithiol, mae Cymru Ifanc yn cyd-drefnu cyfraniadau i ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru, gan gefnogi'r ddyletswydd sylw dyledus. Gall y cyfraniadau hyn fod ar sawl ffurf – arolygom, grwpiau ffocws, cyfweliadau strwythuredig – a'u nod yw ystyried amrywiaeth y boblogaeth plant a phobl ifanc.

Hefyd mae Gweinidogion Cymru'n cynnal trafodaethau rheolaidd â phobl ifanc i drafod amrywiaeth o faterion polisi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd Plant Cymru ar ddau arolwg mawr o bobl ifanc er mwyn deall eu barn am bandemig y Coronafeirws. Cafodd y canfyddiadau hyn eu hystyried fel ffynhonnell dystiolaeth allweddol ar bob lefel o lywodraeth, ac maen nhw wedi dylanwadu ar amrywiaeth o benderfyniadau polisi, o addysg i Gynllun Rheoli'r Coronafeirws.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid craidd i Plant yng Nghymru, y sefydliad ambarél cenedlaethol sy'n cynrychioli dros 250 o sefydliadau a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o sectorau. Mae hyn yn galluogi llais plant a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant i gael ei gynnwys yn y trafodaethau ar bolisïau cenedlaethol yn rheolaidd.

Diwygio Cymorth Cyfreithiol

Mae Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 wedi gwneud newidiadau o bwys i argaeledd a lefel y cymorth cyfreithiol i deuluoedd yn y Llys Teulu. Mae'r newidiadau wedi'u cyfyngu'n bennaf i achosion cyfraith teulu preifat, sef achosion lle mae anghydfod rhwng rhieni ynghylch lle dylai plentyn fyw neu gyda phwy y dylai gael cyswllt ar ôl i'r rhieni wahanu.

Mae hwn yn fater heb ei ddatganoli ond, yng Nghymru, mae CAFCASS Cymru yn parhau i gynrychioli plant yn y Llys Teulu mewn achosion cyfraith teulu cyhoeddus a phreifat, gan sicrhau bod lles pennaf y plentyn yn cael ei ystyried ym mhob achos. Mae cymorth cyfreithiol yn dal ar gael er mwyn i blentyn gael ei gynrychioli gan gyfreithiwr ac i CAFCASS Cymru ddarparu gwarcheidwad plant. Gelwir hyn yn 'fodel tandem' cynrychioli yn aml, ac mae'n fodel sy'n sicrhau bod llesiant a hawliau cyfreithiol plentyn yn cael eu diogelu'n llawn.

Senedd Ieuenctid Cymru

Ym mis Tachwedd 2018, etholwyd 60 o bobl ifanc yn aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru. Mae aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru'n tynnu sylw at faterion a godir gan blant a phobl ifanc a'u trafod, a hynny ar lefel genedlaethol gan weithio'n uniongyrchol â Senedd Cymru a chwrdd yn rheolaidd â Gweinidogion Cymru i godi lleisiau plant a phobl ifanc.

3.6 Parchu barn y plentyn

The Committee encourages the State party and devolved administrations to conduct consultations with children on the voting age. Should the voting age be lowered, the Committee recommends that the State party ensure that it is supported by active citizenship and human rights education in order to ensure early awareness of

children that rights are to be exercised as part of citizenship, with autonomy and responsibility, and that the measure does not lend itself to undue influence.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Lleihau'r Oedran Pleidleisio yng Nghymru

Mae'r etholfraint yng Nghymru wedi cael ei hymestyn i bobl ifanc 16 a 17 oed drwy Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bydd yr etholfraint iau mewn grym ar gyfer etholiadau Senedd Cymru 2021, ac etholiadau llywodraeth leol 2022.

Drwy gydol y broses ddeddfwriaethol, cafodd safbwyntiau pobl ifanc eu ceisio drwy ymgyngoriadau. Roedd yr adborth yn dangos bod pobl ifanc am gael rhagor o gymorth i gymryd rhan yn y broses wleidyddol a sefydliadau democrataidd. Mae Rhaglen o Adnewyddu Democrataidd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid allweddol i gefnogi ymgysylltiad democrataidd dinasyddion Cymru, ee gweithwyr ieuenctid, ysgolion a sefydliadau'r trydydd sector.

Mae hyn wedi ein galluogi i ymgysylltu â phobl ifanc wrth ddatblygu adnoddau i gefnogi gwell dealltwriaeth o sefydliadau a phrosesau democrataidd cyn etholiadau'r Senedd yn 2021. Mae cyfres o adnoddau wedi cael ei datblygu i gefnogi rhagor o addysg wleidyddol mewn ysgolion ac mae egwyddorion addysg wleidyddol wedi cael eu hymgorffori yn y cwricwlwm newydd yng Nghymru. Mae pecynnau dysgu proffesiynol a chynnig i fyfyrwyr hŷn mewn perthynas â Bagloriaeth Cymru wedi cael eu datblygu i sicrhau agwedd gyson, atyniadol a gweithredol at addysg ac ymgysylltiad gwleidyddol yn yr ysgol a thu hwnt.

4. Hawliau Sifil a Rhyddid

Mae'r grŵp hwn o argymhellion yn ymwneud ag erthyglau: 7, 8, 13-17 ac yn delio â hawliau sifil a rhyddid plant, gan gynnwys hawl plant i symud yn rhydd mewn mannau cyhoeddus, i gael gafael ar wybodaeth, ac i breifatrwydd.

4.1 Cofrestru genedigaeth / Enw a chenedligrwydd

The Committee recommends that the State party encourage its Overseas Territories to revise the local legislation and the British Nationality Act in order to guarantee the right of migrant children, in particular those children born in the territories, to a birth certificate.

I diriogaethau tramor y mae'r argymhelliad hwn yn berthnasol felly Llywodraeth y DU sydd i'w ystyried.

4.2 Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd

The Committee is concerned that pupils are required by law to take part in a daily religious worship which is "wholly or mainly of a broadly Christian character" in publicly funded schools in England and Wales, and that children do not have the right to withdraw from such worship without parental permission before entering the sixth form. In Northern Ireland and Scotland, children do not have right to withdraw from collective worship without parental permission.

The Committee recommends that the State party repeal legal provisions for compulsory attendance at collective worship in publicly funded schools and ensure that children can independently exercise the right to withdraw from religious worship at school

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Addoli ar y Cyd

Ar ysgolion y mae'r cyfrifoldeb dros gynllunio a darparu addoli ar y cyd. Dylai ysgolion fod yn sensitif i'r amrywiaeth o gredoau sydd gan ddisgyblion yr ysgol a rhoi cyfle i ddisgyblion addoli heb eu hannog i wneud rhywbeth sy'n groes i ddysgeidiaethau eu crefydd neu gredoau. Mae gan rieni'r cyfle i atal eu plentyn rhag cymryd rhan mewn addoli ar y cyd.

Nid yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu adolygu'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth mewn cysylltiad ag addoli ar y cyd.

4.3 Rhyddid i ymgysylltu ac i ymgynnull yn heddychlon

In order to fully guarantee children's right to freedom of movement and peaceful assembly, the Committee recommends that the State party:

(a) Prohibit the use of mosquito devices (acoustic youth dispersal devices) in public spaces;

(b) Collect data on measures used against children, including children aged 10-11 years, to deal with anti-social behaviours, as well as dispersal, and monitor the criteria and proportionality of their use.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Nid yw Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r defnydd o ddyfeisiau gwasgaru, fel y dyfeisiau 'Mosquito', ac yn rhannu pryderon y Pwyllgor ynghylch yr effaith ar ryddid plant a phobl ifanc i symud.

4.4 Hawl i breifatrwydd

The Committee recommends that the State party:

(a) Prohibit the use of non-statutory stop-and-search checks against children;

(b) Ensure that the statutory use of the stop-and-search checks is proportionate, taking into consideration the age and maturity of the child, and non-discriminatory;

(c) Regularly collect, analyse and publish data relating to the use of stop and search on children, disaggregated by age, sex, disability, geographic location, ethnic origin and socioeconomic background.

Nid yw plismona wedi'i ddatganoli yng Nghymru. Mae'n gyfrifoldeb i Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU.

5. Trais yn erbyn Plant

Mae'r grŵp hwn o argymhellion yn ymwneud ag erthyglau 19, 24(3), 28(2), 34, 37(a) a 39 ac mae'n delio â thrais yn erbyn plant.

5.1 Artaith a thriniaeth neu gosb greulon neu israddol arall

Mae'r grŵp hwn o argymhellion yn ymwneud ag erthyglau 19, 24(3), 28(2), 34, 37(a) a 39 ac mae'n delio â thrais yn erbyn plant.

The Committee is concerned about:

(a) Tasers, and in the case of Northern Ireland, Attenuating Energy Projectiles (AEPs), being used against children by the police in the four devolved administrations;

(b) The increased use of restraint and other restrictive interventions against children in custodial settings in England and Wales, and the lack of data on the use of restraint in other parts of the State party;

(c) The use of physical restraint on children to maintain good order and discipline in Young Offenders' Institutions and the use of pain-inducing techniques on children in institutional settings in England, Wales and Scotland, and the lack of a comprehensive review of the use of restraint in institutional settings in Northern Ireland;

(d) The use of restraint and seclusion on children with psycho-social disabilities, including children with autism, in schools.

With reference to the Committee's general comment No. 13 (2011) on the right of the child to freedom from all forms of violence and Sustainable Development Goal 16, Target 16.2, the Committee urges the State party to:

(a) Prohibit the use of electrical discharge weapons, such as Taser guns, AEPs (Northern Ireland) and any other harmful devices on children and systematically collect and publish age disaggregated data on their use in order to monitor the implementation of such prohibition;

(b) Abolish all methods of restraint against children for disciplinary purposes in all institutional settings, both residential and non-residential, and ban the use of any technique designed to inflict pain on children;

(c) Ensure that restraint is used against children exclusively to prevent harm to the child or others and only as a last resort;

(d) Systematically and regularly collect and publish disaggregated data on the use of restraint and other restrictive interventions on children in order to monitor the appropriateness of discipline and behaviour management for children in all settings, including in education, custody, mental health, welfare and immigration settings.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Arfau Dadwefru Trydanol

Mae defnyddio dyfeisiau trydanol fel dyfeisiau 'Taser' yn fater plismona ac nid yw wedi'i ddatganoli.

Defnyddio Ataliaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol i hyrwyddo mesurau ac arferion a fydd yn arwain at leihau arferion cyfyngol mewn lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn bwriadu cyhoeddi fersiwn derfynol o'r Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol yn 2021 a byddwn yn datblygu cynnig ar-lein i hyrwyddo gweithrediad.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylai'r canllawiau mae'n bwriadu eu cyhoeddi ar arferion cyfyngol sicrhau bod y rhai sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion mewn lleoliadau gofal plant, iechyd, addysg a gofal cymdeithasol yn rhannu fframwaith cyffredin o egwyddorion a disgwyliadau ar sail dull gweithredu sy'n hyrwyddo hawliau dynol yn frwd. Mae Llywodraeth Cymru yn glir y dylid defnyddio arferion cyfyngol ac ataliaeth yng nghyd-destun y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac yn unol â'r egwyddorion a ddisgrifir yn y Fframwaith Hawliau Dynol ar Ataliaeth a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Nod y dull gweithredu a nodir yn y fframwaith yw hyrwyddo'r hawliau a'r egwyddorion a nodir yn CCUHP; Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.

Cafodd y canllawiau statudol Cadw dysgwyr yn ddiogel diweddaraf eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2021 ac maen nhw'n cynnwys canllawiau ar gyswllt corfforol â disgyblion, gan gynnwys ataliaeth. Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu sut a phryd gall staff addysg ddefnyddio grym o'r fath fel y bo'n rhesymol mewn rhai amgylchiadau. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'n glir ei bod bob amser yn anghyfreithlon defnyddio grym fel cosb ac mai maint y grym a ddefnyddir fydd y lleiaf sydd ei angen i sicrhau'r canlyniad a fwriedir.

5.2 Cosb gorfforol

With reference to its general comment No. 8 and its previous recommendations, the Committee urges the State party, in all devolved administrations, Overseas Territories and Crown Dependencies, to:

(a) Prohibit as a matter of priority all corporal punishment in the family, including through the repeal of all legal defences, such as "reasonable chastisement";

(b) Ensure that corporal punishment is explicitly prohibited in all schools and educational institutions and all other institutions and forms of alternative care;

(c) Strengthen its efforts to promote positive and non-violent forms of discipline and respect for children's equal right to human dignity and physical integrity,

with a view to eliminating the general acceptance of the use of corporal punishment in child-rearing.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol

Cafodd Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 Gydsyniad Brenhinol ar 20 Mawrth 2020 a bydd Adran 1 (diddymu amddiffyniad cosb resymol) yn dod i rym ar 21 Mawrth 2022. Pwrpas y Ddeddf yw gwahardd cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru drwy ddiddymu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith.

Nod y Ddeddf yw helpu i ddiogelu hawliau plant drwy wahardd rhieni a'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis yng Nghymru, gan gynnwys ymwelwyr â Chymru, rhag cosbi plant yn gorfforol. Drwy wneud hynny, bydd gan blant yng Nghymru yr un amddiffyniad cyfreithiol rhag cosb gorfforol ag oedolion.

Mae Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu mewn modd ymarferol a dichonadwy. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud â rhanddeiliaid allweddol drwy Grŵp Gweithredu Strategol a grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.

Magu plant mewn modd cadarnhaol

Ynghyd â'r gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith, mae pecyn ehangach o fesurau i hyrwyddo magu plant mewn modd cadarnhaol. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn darparu amrywiaeth o gymorth magu plant sy'n cynnwys gwybodaeth a chyngor sydd ar gael i bawb, grwpiau magu plant, a chymorth dwys, wedi'i dargedu. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cymorth magu plant ac mewn gwybodaeth a chyngor ynghylch magu plant mewn modd cadarnhaol dros nifer o flynyddoedd, gan gynnwys drwy ymwelwyr iechyd; rhaglenni cymorth i deuluoedd, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a'r ymgyrch 'Magu Plant. Rhowch amser iddo'. Mae Magu Plant. Rhowch amser iddo yn hyrwyddo negeseuon magu plant cadarnhaol i deuluoedd â phlant hyd at 7 oed, a hynny drwy gyfryngau cymdeithasol a phrint, a hysbysebion digidol.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i adolygu'r cymorth magu plant sydd ar gael ac yn bwriadu ymestyn ystod oedran yr ymgyrch Magu Plant. Rhowch amser iddo i deuluoedd â phlant hyd at 18 oed. Bydd yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yn cyfeirio at y wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael i rieni.

5.3 Trais, camdriniaeth ac esgeulustod

The Committee welcomes the introduction of a new domestic abuse offence to capture coercive and controlling behaviour in intimate and familial relationships, as introduced in the Serious Crime Act (2015) in England and Wales. However, the Committee is concerned at:

(a) The high prevalence of domestic violence and gender-based violence against women and girls, which have a negative impact on children whether as victims or witnesses;

(b) The Children and Young Persons Act (1933) defining a child as a person under the age of 16 for the purpose of the criminal law on child abuse and neglect;

(d) The lack of due respect for the views of children in responses to violence against children and in family law proceedings.

With reference to its general comment No. 13 (2011) and Sustainable Development Goal 16, Target 16.2, the Committee recommends that the State party:

(a) Revise the Children and Young Persons Act (1933) in order to protect all children under 18 years from child abuse and neglect;

(b) Strengthen systematic data collection and recording of information on violence against children, including domestic violence, gender-based violence, abuse and neglect, in all settings, as well as information sharing and referral of cases among relevant sectors;

(c) Increase the number of social workers and strengthen their capacity to address violence against children;

(d) Give due weight to the views of children concerned in the responses to violence, including in criminal and family law proceedings;

(e) Consider ratifying the Council of Europe Convention on preventing and combating violence against women and domestic violence.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Trais a Cham-drin Domestig

Ar 29 Ebrill 2015, daeth Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) i rym. O dan adran 11(1) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi dangosyddion y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn cyflawni dibenion y Ddeddf. Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, wedi dechrau mireinio'r dangosyddion hyn ar sail bob un o'r amcanion yn ein Strategaeth Genedlaethol.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, a thrawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Ystyr 'pobl' yw plant (hyd at 18 oed) ac oedolion (dros 18 oed). Fel y bo'n berthnasol i blant, mae'r ddeddfwriaeth yn cefnogi'r egwyddorion hyn gyda dyletswydd uniongyrchol i

gyflawni swyddogaethau gan roi sylw dyledus i CCUHP. Cafodd canllawiau statudol, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg' eu cyhoeddi o dan Ran 7 o'r Ddeddf yn 2018.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru[i] yn nodi rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae'r Gweithdrefnau'n helpu ymarferwyr i ddilyn ein deddfwriaeth a'n canllawiau diogelu statudol. Mae pob un o'r deg CanllawYmarfer Cymru Gyfan a gyhoeddwyd gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi y dylai ymarferwyr fabwysiadu Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plantyn unol â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP ac i ddilyn y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

Mae rhaglen hyfforddiant yn cefnogi ymarferwyr ar draws asiantaethau ac ar draws Cymru yn eu rôl i ddeall eu dyletswyddau diogelu ac i ddilyn arferion diogelu cyson, sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

Achosion y Llys Teulu

Prif rôl CAFCASS Cymru yw diogelu a hybu anghenion plant sy'n destun achos yn y Llys Teulu. Yn ymarferol, ar wahân i flaenoriaeth hollbwysig sef rhoi cyngor i'r Llys Teulu ar les pennaf y plentyn, mae CAFCASS Cymru'n rhoi pwyslais hollbwysig ar sicrhau bod dymuniadau a theimladau plentyn yn hysbys ac yn cael eu deall gan y Llys ac aelodau allweddol o'r teulu. Mae hyn yn arbennig o bwysig os mai trais a diogelu yn fwy cyffredinol yw'r mater dan sylw.

Atal a threchu trais yn erbyn menywod a thrais domestig

Mae Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at adroddiad blynyddol Llywodraeth y DU ar gynnydd tuag at gadarnhau Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a threchu trais yn erbyn menywod a thrais domestig (Confensiwn Istanbwl). Mae Cymru'n cydymffurfio â holl Erthyglau perthnasol y Confensiwn.
Cyflwynodd Llywodraeth y DU ei phedwaredd adroddiad blynyddol ar y cynnydd tuag at gadarnhau Confensiwn Istanbwl i Senedd y DU ym mis Hydref 2020.

Mae dwy erthygl ar ôl i'w datrys cyn y gellir cadarnhau'r Confensiwn, sef Erthygl 44 (awdurdodaeth alltiriogaethol) ac Erthygl 55 (statws preswylio). Mae Bil Cam-drin Domestig Llywodraeth y DU yn cynnwys mesurau a fydd yn ei gwneud yn bosibl cadarnhau'r Confensiwn.

5.4 Camfanteisio a cham-drin rhywiol

The Committee welcomes measures taken to address child sexual exploitation and abuse, including the WePROTECT Model National Response as well as strong child and civil society participation in the development of a multi-sectoral action plan and relevant guidance and tools in Wales, and in the independent inquiry on the phenomenon in Northern Ireland. However, the Committee is concerned about:

(a) Recent allegations of widespread child sexual exploitation and abuse by high profile figures, by organized gangs as well as in institutional settings;

(b) The increasing risk of online child sexual exploitation and abuse;

(c) The insufficient respect for the views of children in efforts to prevent, detect and respond to such exploitation and abuse;

(d) The low rate of prosecution of child sexual exploitation and abuse.

The Committee recommends that the State party, including devolved governments, Overseas Territories and Crown Dependencies:

(a) Systematically collect and publish comprehensive and disaggregated data on child exploitation and abuse, including through mandatory reporting, in all settings;

(b) Develop and implement comprehensive multi-sectoral strategies on child exploitation and abuse, including online, to ensure effective prevention, early detection and intervention, at national as well as at devolved levels, in Overseas Territories and Crown Dependencies;

(d) Further develop comprehensive services to support children who are victims or at risk of sexual exploitation and abuse;

(e) Strengthen the capacity of law enforcement authorities and the judiciary to detect and prosecute child sexual exploitation and abuse, and grant effective remedies to the child victims;

(f) Consider ratifying the Council of Europe Convention on the Protection of Children against Sexual Exploitation and Sexual Abuse.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Atal ac ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol

Mae Cod Ymarfer newydd mewn cysylltiad â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru wedi cael ei gyhoeddi. Daeth y fframwaith newydd yn gyfraith ar 1 Ebrill 2020 ac mae wedi'i ddylunio i ddarparu golwg o'r dechrau i'r diwedd ar swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol drwy nifer o Safonau Ansawdd. Canllawiau ar Berfformiad a Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Mae'r Cynllun yn cynnwys camau gweithredu ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant fel math o gam-drin plant yn rhywiol. Mae'r Cynllun yn cynnwys camau gweithredu i Lywodraeth Cymru a'r 6 Bwrdd Diogelu Plant rhanbarthol yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, gan gynnwys cam-drin ar lein, er mwyn herio agweddau anghynorthwyol a chefnogi gwell dealltwriaeth o'r mathau hyn o gamdriniaeth, ac o'r mesurau sydd eu hangen i fynd i'r afael â chamdriniaeth o'r fath.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddwyd canllawiau statudol ar ddiogelu plant rhag camfanteisio rhywiol. Mae'r rhain yn nodi'r gofynion ar gyfer atal camfanteisio'n rhywiol ar blant, diogelu plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio'n rhywiol, a chefnogi adferiad plant sy'n cael eu cam-drin yn y modd hwn.

Rydym wedi comisiynu Prifysgol Caerdydd i ddatblygu cynnig hyfforddi ar arferion sy'n canolbwyntio ar y plentyn gyda phlant yn eu harddegau sy'n wynebu risg, gan gynnwys pobl ifanc sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol ar blant neu'n wynebu risg o hynny.

Mae Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant, rhag camfanteisio troseddol ar blant, rhag cam-drin ar-lein, diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal, a phlant a all fod wedi'u masnachu wedi cael eu cyhoeddi gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru, ac mae hyfforddiant yn cefnogi'r broses o'u gweithredu ar draws asiantaethau ac ar draws Cymru.

Mae'r Camau Gweithredu Cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn cynnwys camau gweithredu i adolygu'r cymorth sydd ar gael ar lefel ranbarthol i blant sy'n dioddef cam-drin rhywiol neu gamfanteisio rhywiol, neu sy'n wynebu risg o hynny. Mae cam gweithredu i Lywodraeth Cymru – 'cefnogi datblygiad ar sail tystiolaeth y cynnig ar gyfer cymorth therapiwtig i blant sydd wedi'u heffeithio gan drawma sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol'. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud fel rhan o waith ehangach Straen Trawmatig Cymru a'r Ffrwd Waith Plant a Phobl Ifanc, sef nodi'r ddarpariaeth bresennol a'r bylchau ynddi, a datblygu, gweithredu a monitro'r ddarpariaeth o lwybrau gofal integredig i blant a phobl ifanc ar y cyd ag arweinwyr byrddau iechyd lleol. Mae cam gweithredu i Fyrddau Diogelu rhanbarthol gynnal adolygiad o'r cymorth therapiwtig sydd ar gael yn y rhanbarth i blant sydd wedi dioddef cam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol neu gam-drin rhywiol ar-lein, er mwyn gallu nodi'r bylchau yn y ddarpariaeth a'u llenwi.

Cafodd y canllawiau statudol Cadw Dysgwyr yn Ddiogel eu cyhoeddi ym mis Hydref 2020. Fe wnaeth yr ymgynghoriad ar y canllawiau gasglu'r ymatebion a gafwyd gan glybiau plant a Chomisiynydd Plant Cymru. Yn ogystal â hynny, rydym wedi diweddaru fersiwn hawdd ei deall y canllawiau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn hygyrch i blant a phobl ifanc.

Mae'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth am rôl a chyfrifoldebau y Person Diogelu Dynodedig; cam-drin domestig, trais ar sail rhywedd, trais rhywiol ac arferion diwylliannol niweidiol; a chydlyniant cymunedol ac atal radicaleiddio.

5.5 Arferion niweidiol

The Committee welcomes the enactment of the Serious Crime Act (2015) in England and Wales which enabled the courts to issue protection orders to protect potential or actual child victims of female genital mutilation. However the Committee is concerned at:

(a) The significant number of children who are affected by harmful practices, including female genital mutilation and forced marriage of girls and boys aged 16-17 years in some parts of the State party;
(b) Cases of medically unnecessary surgeries and other procedures on intersex children before they are able to provide their informed consent, which often entail irreversible consequences and can cause severe physical and psychological suffering, and the lack of redress and compensation in such cases.

With reference to its general comment No. 18 on harmful practices (2014), the Committee recommends that the State party:

(a) Take effective measures to ensure that marriage of children of 16-17 years of age takes place only in exceptional circumstances and is based on the full, free and informed consent of the concerned children;

(b) Continue and strengthen preventive and protection measures to address the issue of harmful practices, including collecting data, training of relevant professionals, awareness-raising programmes, provision of protection and care to the child victims and the prosecution of perpetrators of these acts;

(c) Ensure that no one is subjected to unnecessary medical or surgical treatment during infancy or childhood, guarantee bodily integrity, autonomy and self-determination to children concerned, and provide families with intersex children with adequate counselling and support;

(d) Provide redress to the victims of such treatment;

(e) Educate medical and psychological professionals on the range of sexual, and related biological and physical, diversity and on the consequences of unnecessary interventions for intersex children.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

<u>Arferion Niweidiol yn erbyn Plant</u>

Mae Llywodraeth Cymru'n cyd-gadeirio Grŵp Arwain Cymru Gyfan ar Gam-drin ar sail Anrhydedd, Priodas Dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod gyda BAWSO a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Nod y grŵp hwn yw atal arferion niweidiol, a diogelu a chefnogi plant ac oedolion yn erbyn yr arferion hyn.

Mae canllawiau amlasiantaeth wedi cael eu datblygu i Gymru a Lloegr ac maen nhw ar gael i ymarferwyr yng Nghymru, yn ogystal ag e-boster a ffeithlen ar anffurfio organau cenhedlu benywod sydd wedi cael eu dosbarthu ymysg athrawon drwy rwydwaith Heb a gweithwyr canolfannau ieuenctid.

Mae Karma Nirvana, elusen cam-drin ar sail anrhydedd brofiadol wedi cael ei chomisiynu'n ddiweddar i ddarparu hyfforddiant ar-lein am ddim rhwng mis Ionawr 2021 a diwedd mis Mawrth 2021 i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol. Bydd yr hyfforddiant hwn yn galluogi

dysgwyr i ddeall ac adnabod cam-drin ar sail anrhydedd; i reoli ac ymateb yn ddiogel i ddatgeliadau o gam-drin ar sail anrhydedd; i nodi dangosyddion risg posibl mewn achosion o gam-drin ar sail anrhydedd; i ddarparu 'mannau amlasiantaeth mwy diogel i ddioddefwyr a goroeswyr siarad; ac i ehangu'r 'mannau diogel' i ddioddefwyr a goroeswyr wneud datgeliadau.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru'n cefnogi arferion diogel cyson, seiliedig ar dystiolaeth ar draws asiantaethau ac ar draws Cymru. Cafodd nifer o Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan eu cyhoeddi gyda'r Gweithdrefnau ac maen nhw'n cynnwys canllaw ymarfer ar ddiogelu plant sy'n wynebu risg o arferion niweidiol. Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu i gefnogi'r broses o roi'r Gweithdrefnau a'r canllawiau ar waith.

Mae materion sy'n ymwneud â rhyngrywioldeb/anhwylderau datblygiad rhywiol ymysg plant yn gymhleth ac yn faes meddygol sy'n datblygu'n gyflym iawn. Mae achosion o ryngrywioldeb/anhwylderau datblygiad rhywiol bellach yn cael eu cydnabod fel mater mwy cymdeithasol o lawer nag o'r blaen, ac mae'r ymarfer meddygol yn fwy ymgynghorol o lawer nag yr oedd o'r blaen. Mae'n bosibl y gallai'r rhesymau am yr argymhellion hyn fod yn hanesyddol, hy wedi'u sbarduno gan bobl sy'n oedolion nawr ac na chafodd eu trin yn dda iawn gan eu system gofal iechyd yn y gorffennol. Mae plant sy'n cael eu geni nawr ac yn rhyngrywiol/profi anhwylderau datblygiad rhywiol yn cael eu rheoli mewn ffordd fwy ymgynghorol o lawer.

Dylai'r driniaeth i unigolion â materion y ddau ryw gael ei theilwra i anghenion penodol cleifion unigol a dylai geisio lleddfu effaith negyddol bosibl y materion hyn ar brosesau datblygu cyffredinol, er mwyn helpu pobl ifanc a'u teuluoedd i reoli'r ansicrwydd sy'n rhan annatod o ddatblygu hunaniaeth o ran rhywedd a darparu cyfleoedd parhaus i archwilio hunaniaeth o ran rhywedd.

Er nad oes dull gwneud iawn penodol ar gyfer pobl y mae'r materion hyn wedi effeithio arnynt o'r blaen, mae gan GIG Cymru Gynllun Gwneud Iawn cyffredinol – "Gweithio i Wella", sy'n ddull gweithredu ar gyfer delio ac ymchwilio i gwynion am wasanaethau'r GIG yng Nghymru. Gallai'r iawn o dan y cynllun fod yn ymddiheuriad neu'n ddyfarniad ariannol o iawndal hyd at £25,000.00 (uchafswm hawliadau Iawndal Cynllun Gwneud Iawn y GIG).

5.6 Rhyddid y plentyn rhag pob ffurf ar drais

The Committee is concerned that:

(a) Bullying, including cyber bullying, remains a serious and widespread problem, particularly against LGBTI children, children with disabilities and children belonging to minority groups, including Roma, Gypsy and Traveller children.

(b) In Northern Ireland, children face violence, including shootings, carried out by non-State actors involved in paramilitary-style attacks, as well as recruitment by such non-State actors.

The Committee recommends that the State party:

(a) Intensify its efforts to tackle bullying and violence in schools, including through teaching human rights, building capacities of students and staff members to respect diversity at school, improving students' conflict resolution skills, conducting regular monitoring of incidences of bullying at school, and involving children in the initiatives and monitoring aimed at eliminating bullying;

(b) In the light of the recommendations resulting from the day of general discussion on digital media and children's rights, train children, teachers and families on the safe use of information and communication technologies, raise awareness among children on the severe effects that online bullying can have on their peers, and increase the involvement of social media outlets in the efforts to combat cyber-bullying.

(c) Take immediate and effective measures to protect children from violence by non-State actors involved in paramilitary-style attacks as well as from recruitment by such actors into violent activities, including through measures relating to transitional and criminal justice.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Bwlio mewn Ysgolion

Mae cyfres o ganllawiau Llywodraeth Cymru 'Hawliau, parch, cydraddoldeb' yn darparu canllawiau statudol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac i awdurdodau lleol i helpu i fynd i'r afael â bwlio mewn lleoliadau addysg yng Nghymru, ac atal hynny. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn ymestyn i achosion o fwlio ar-lein lle mae'n cael effaith ar lesiant dysgwyr yn yr ysgol.

Mae'r gyfres hefyd yn cynnwys canllawiau cynghori i blant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr er mwyn helpu'r rhai y mae bwlio'n effeithio arnynt, gan amlinellu hawliau a chyfrifoldebau. Mae'r canllawiau'n darparu atebion ymarferol, uniongyrchol ar gyfer atal a rheoli achosion o bob math o fwlio, ac yn darparu cyngor penodol mewn cysylltiad â nodweddion gwarchodedig.

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bob ysgol yng Nghymru gael polisi ymddygiad yr ysgol. Mae canllawiau gwrth-fwlio statudol 'Hawliau, parch, cydraddoldeb' yn amlinellu disgwyliad Llywodraeth Cymru bod gan bob ysgol yng Nghymru bolisi gwrth-fwlio penodol, gan nodi sut bydd yr ysgol yn cofnodi ac yn monitro achosion o fwlio er mwyn helpu i gymryd camau rhagweithiol i herio bwlio. Dylai'r polisi ystyried mesurau sy'n rheoleiddio ymddygiad dysgwyr pan nad ydynt ar dir yr ysgol neu nad ydynt dan reolaeth neu ofal aelod o staff. Mae hyn yn bwysig iawn mewn cysylltiad â bwlio ar-lein, sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol yn aml ond yn gallu effeithio'n gryf iawn ar fywyd ysgol y dysgwyr sy'n ei ddioddef.

Mae disgwyl i ysgolion adolygu eu polisi a'u strategaeth gwrth-fwlio ar y cyd â'u dysgwyr yn rheolaidd – bob tair blynedd o leiaf. Mae'r canllawiau newydd hefyd yn cynnwys gorfodaeth i adrodd achosion o fwlio er mwyn i ysgolion ac awdurdodau lleol allu monitro natur a hyd a lled y bwlio.

Bydd cymhwysedd digidol yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd, ynghyd â llythrennedd a rhifedd, yng Nghwricwlwm Cymru 2022. Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yw'r elfen gyntaf o Gwricwlwm Cymru 2022 ac mae ar gael ers mis Medi 2016. Mae'r Fframwaith yn cynnwys pedwar llinyn sydd yr un mor bwysig â'i gilydd ('Dinasyddiaeth', 'Rhyngweithio a chydweithio', 'Cynhyrchu', a 'Data a meddwl cyfrifiadurol').
Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i ysgolion fynd i'r afael â bwlio ar-lein lle mae'n cael effaith ar lesiant dysgwyr yn yr ysgol. Lle bo angen, mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i ysgolion atgyfeirio achos i'r asiantaeth neu'r gwasanaeth priodol. Mae disgwyl i ysgolion gofnodi achosion fel rhan o'u harferion monitro diogelu ehangach.

6. Amgylchedd teuluol a gofal amgen

Mae'r grŵp hwn o argymhellion yn ymwneud ag erthyglau 5, 9-11, 18(1-2), 20-21, 25, a 27(4), ac yn delio â'r amgylchedd teuluol a'r gofal cywir i blant nad ydynt yn byw â'u rhieni, ac amddiffyniad rhag mathau o drais a chamdriniaeth.

6.1 Yr amgylchedd teuluol

The Committee acknowledges that there are good practices in the State party and the devolved administrations in providing childcare to those who need it. However, the Committee is concerned about the negative effect of the high cost of childcare on children and their family environment.

The Committee recommends that the State party and the devolved governments conduct a rigorous child rights impact assessment of the recent reduction of funding for childcare and family support and adjust the family support policy in order to make childcare services available to all those who need it.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

<u>Gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru</u>

Ers mis Ebrill 2019, mae Cynnig Gofal Plant Cymru wedi bod ar gael ledled Cymru. Mae cyllid y Cynnig wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan adlewyrchu cynnydd graddol yn y galw a'r defnydd. Dyrannwyd cyllid ychwanegol sylweddol yn 2020-21 yn benodol i gyflenwi Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws, a oedd yn darparu cyllid gan y Llywodraeth i dalu am gostau gofal plant gweithwyr hanfodol a theuluoedd agored i niwed.

Mae'r Cynnig Gofal Plant yn darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i rieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Mae'r Cynnig yn adeiladu ar yr ymrwymiad cyffredinol presennol i addysg gynnar, sy'n rhoi o leiaf 10 awr yr wythnos o ddarpariaeth i bob plentyn 3 a 4 oed o dan Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg, sydd wedi'i thargedu'n ddaearyddol, hefyd yn darparu gofal plant o ansawdd, wedi'i ariannu'n llawn, i rieni pob plentyn 2-3 oed cymwys am 2 awr a hanner yr wythnos, 5 diwrnod yr wythnos, 39 wythnos y flwyddyn. Rhaid i ddarparwyr gofal plant Dechrau'n Deg sicrhau cysylltiadau agos â'r cyfnod sylfaen i wneud yn siŵr bod plant yn pontio'n effeithiol rhwng darparwyr Dechrau'n Deg a'r

cyfnod sylfaen. Mae hyn yn sicrhau bod gofal plant Dechrau'n Deg yn helpu i baratoi plant ar gyfer ymuno â'r cyfnod sylfaen pan fyddant yn 3 oed.

Ar ben y rhaglenni hyn, mae Llywodraeth Cymru'n darparu llwybrau cymorth eraill i rieni sy'n cael trafferth talu costau gofal plant. Mae'r rhain yn cynnwys y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a'r Grant Gofal Plant, sydd wedi'u targedu at ddysgwyr a myfyrwyr sy'n cael trafferthion ariannol neu sydd angen help gyda'u costau gofal plant i'w galluogi i astudio. Mae Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, prosiect ar y cyd dan arweiniad Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, hefyd yn darparu cymorth gofal plant i rieni pan fyddant yn cael hyfforddiant neu'n chwilio am waith ac mai gofal plant yw'r prif rwystr.

Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn becyn cymorth sylweddol i deuluoedd. Ar sail gwerthusiad o flwyddyn 2 y Cynnig Gofal Plant,
dywedodd 84% o rieni fod ganddynt ragor o incwm gwario a 56% fod ganddynt ragor o gyfleoedd i gynyddu eu henillion. Cyflog canolrifol y rhieni sy'n cael cymorth gan y Cynnig yw tua £21,000 y flwyddyn, sy'n is na'r cyflog blynyddol cyfartalog cenedlaethol sef £25,896 y flwyddyn (fel y cofnodwyd gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion).

Yn ogystal â'r cymorth hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei gweledigaeth ar gyfer addysg a gofal plant yn ystod plentyndod cynnar, sy'n anelu at drawsnewid y ddarpariaeth addysg a gofal plant i blant rhwng 0 a 5 oed yng Nghymru.

Ein man cychwyn arfaethedig yw y dylai pob plentyn gael profiad dysgu a gofal difyr, o ansawdd uchel, ym mha bynnag leoliad addysg a gofal mae'n ei fynychu. Byddai hyn yn golygu cael gwared ar y rhaniad artiffisial rhwng lleoliadau addysg a gofal, a chanolbwyntio ar sicrhau bod pob lleoliad sy'n darparu addysg a gofal plant cynnar o werth cyfartal i lesiant a datblygiad plant. Rhan hollbwysig o'r weledigaeth yw sicrhau mynediad at addysg a gofal plant yn ystod plentyndod cynnar i blant Cymru, a helpu'r gweithlu i feithrin a chefnogi plant yn ystod eu blynyddoedd cynnar.

6.2 Plant sydd wedi'u hamddifadu o amgylchedd teuluol

The Committee is concerned about:

(a) The increase in the number of children in care in England, Wales, and Northern Ireland, and the high rate of children in care in Scotland;

(b) Cases where early intervention measures have not been timely carried out, parents have not been provided with adequate family support, and the best interests of the child have not been properly assessed in the decision of taking a child into care. Children have reportedly been removed from their biological families due to the family's economic situation or because a foster family may provide a more beneficial environment for the child;

(c) The frequent changes of social workers for children in care, and children often experiencing more than two family placements in a year which negatively affects all aspects of their life;

(d) Children placed at a distance from their biological families which prevents them from keeping in contact, and siblings being separated from each other without proper reason;

(e) The practice of children being placed in secure accommodation in Northern Ireland;

(f) Children leaving foster care or residential care not receiving proper support and counselling, including on their future plans, and often having to live far away from their former carers;

(g) The adoption procedure in Northern Ireland remaining outdated and not in line with the Convention.

Drawing the State party's attention to the Guidelines for the Alternative Care of Children (General Assembly resolution 64/142, annex), the Committee emphasizes that conditions directly and uniquely attributable to poverty should never be the sole justification for removing a child from parental care. The Committee recommends that the State party:

(a) Intensify its efforts to render appropriate assistance to parents and legal guardians, including informal kinship carers, in the performance of their child-rearing responsibilities;

(b) Ensure that the removal of children from their families is always subject to thorough investigation, is in accordance with the best interests of the child and is only used as a measure of last resort;

(c) Wherever possible find a placement for the child which will facilitate contact with his or her biological parents and siblings;

(d) Ensure that secure accommodation in Northern Ireland is only used as a measure of last resort and for the shortest possible period of time, address the reasons for repeated or lengthy stays in such accommodation, and develop alternatives to secure accommodation;

(e) Take all measures necessary to provide stability for children in care, including efforts to retain social workers and to avoid unnecessary changes in placement;

(f) Inform and consult with children from an early stage on plans for their care and transition and provide sufficient support for care leavers, including for accommodation, employment or further education

(g) Expedite the approval and enactment of the Adoption and Children Bill in Northern Ireland.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

<u>Gwella canlyniadau i blant</u>

Mae rhaglen waith Gwella Canlyniadau i Blant Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei goruchwylio gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog, wedi cael ei dylunio i nodi pa gamau

atal ac ymyrryd yn gynnar y gellir eu cymryd i helpu i leihau nifer y plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal, a gwella canlyniadau i'r plant hynny sydd eisoes wedi ymuno â'r system ofal a phlant sy'n gadael gofal. Mae rhaglen waith eang yn ymwneud â thair thema allweddol; atal plant rhag mynd i ofal ac ymyrryd yn gynnar, gwella canlyniadau i blant sydd eisoes mewn gofal, a helpu plant sy'n gadael gofal i gael dyfodol llwyddiannus ac i fyw'n annibynnol. O fewn y themâu allweddol hyn mae llinynnau gwaith sylweddol yn cael eu datblygu i ddarparu cymorth a gofal i blant a theuluoedd yng Nghymru.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymdrechu i hyrwyddo cyswllt rhwng plentyn a'i rieni, unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant, ac unrhyw berthynas, ffrind neu unigolyn berson arall sy'n gysylltiedig â'r plentyn, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol neu'n cyd-fynd â llesiant y plentyn. Nodir y trefniadau yng nghynllun gofal a chymorth y plentyn ac maen nhw'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

6.3 Plant rhieni sydd yn y carchar

The Committee is concerned that due to insufficient co-operation between the courts and the child protection authorities, a parent may be sentenced to imprisonment and directly incarcerated while his/her children are left alone without proper care.

The Committee recommends that the State party:

(a) Ensure that child protection authorities are always informed when a person who has a child (children) is imprisoned in order to avoid situations where children are left unattended.

(b) Take into account the best interests of the child as a primary consideration when sentencing parents, avoiding, as far as possible, sentences for parents which lead to their being separated from their children.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd

Un o'r camau gweithredu yn y Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd yw sefydlu gwasanaethau i ferched yng Nghymru sydd yn y ddalfa wella a chynnal cyswllt â phlant a theuluoedd.

Mae adolygiad o adroddiad yr Argrlwydd Farmer, *Importance of strengthening female offenders' family and other relationships to prevent reoffending and reduce intergenerational crime looking into the needs of women and their children/families*, wedi cael ei gynnal, ac mae cynlluniau'n cael eu datblygu a'u hymgorffori yn y Glasbrint.

Mae cyllid wedi cael ei sicrhau gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM i ailsefydlu'r prosiect Ymweld â Mam fel ffordd o wella'r cyswllt rhwng merched yn y carchar a'u plant, gan adlewyrchu un o argymhellion allweddol y Glasbrint.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid i gyflawni'r Fframwaith er mwyn cefnogi newid cadarnhaol i'r rhai sydd mewn perygl o droseddu. Un o flaenoriaethau allweddol y fframwaith yw cefnogi teuluoedd troseddwyr ar ôl y ddedfryd, gan sicrhau bod plant troseddwyr yn cael eu nodi a'u cefnogi

7. Anabledd, Iechyd a Llesiant

Mae'r grŵp hwn o argymhellion yn ymwneud ag erthyglau 6, 18(3), 23, 24, 26, 27(1-3) a 33. Mae'n delio ag anabledd yn ogystal â llesiant, iechyd ac iechyd meddwl plant.

7.1 Plant anabl

The Committee is concerned that:

(a) Many children with disabilities do not see that their views are given due weight in making personal decisions in their life, including choice of support and future;

(b) Many children with disabilities are still placed in special schools or special units in mainstream schools and many school buildings and facilities are not made fully accessible to children with disabilities;

(c) Provision of the support for transition to adulthood is often neither sufficient, timely nor well-coordinated, and does not ensure fully-informed decision by children with disabilities;

With reference to its general comment No.9 (2006) on the rights of children with disabilities, the Committee recommends that the State party adopt a human rights-based approach to disability, set up a comprehensive strategy for the inclusion of children with disabilities and:

(a) Ensure full respect of the rights of children with disabilities to express their views and to have their views given due weight in all decision-making that affect them, including on access to and choice of personal support and education;

(b) Set up comprehensive measures to further develop inclusive education, ensure that inclusive education is given priority over the placement of children in specialized institutions and classes, and make mainstream schools fully accessible to children with disabilities;

(c) Provide children with disabilities with a comprehensive and integrated package of services for transition to adulthood, from a sufficiently early stage, by coordinating legislation, policy and programmes across relevant sectors, and ensure fully-informed decision by children with disabilities on their personal choice in the transition, by involving them in the design of services and by providing advice and information on available options.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Plant Anabl

Ym mis Mehefin 2020, gofynnodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i aelodau o'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl gynhyrchu adroddiad ar effaith Covid-19 ar bobl anabl yng Nghymru. Mae'r adroddiad wedi cael ei ysgrifennu gan yr Athro Debbie Foster a'i gydgynhyrchu â'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl, a Grŵp Llywio llai o faint. Rhagwelir y bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2021.

Y bwriad yw y bydd yr adroddiad hwn yn darparu Llywodraeth Cymru ag ymchwiliad seiliedig ar dystiolaeth i brofiad pobl anabl y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt, ac yn dylanwadu ar y gwaith o adnewyddu'r fframwaith a'r cynllun gweithredu "Gweithredu ar Anabledd", gan ystyried effeithiau Covid-19. Bydd plant anabl a'u profiadau yn rhan o'r adroddiad seiliedig ar dystiolaeth.

Diwygio'r System Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae datblygu system addysg gynhwysol yn un o nodau trosfwaol Rhaglen Trawsnewid y System Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a fydd yn sicrhau bod dysgwyr wrth galon y broses addysg.

Agwedd sylfaenol ar y rhaglen hon yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018. Cafodd y Ddeddf ei llunio â hawliau plant wrth ei gwraidd. Mae egwyddorion CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yn cael eu gwireddu yn y Ddeddf a'r Cod ADY drafft ategol. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno un fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cefnogi pob dysgwr 0-25 oed ag ADY, dim ots pa mor ddifrifol neu gymhleth fo'r angen. Bydd hyn yn golygu bod y cymorth i ddysgwyr ag ADY mewn ysgolion ac addysg bellach yn fwy cyfartal, ac yn gwella'r broses o bontio o'r ysgol i addysg ôl-16 i ddysgwyr, gan ganiatáu rhagor o degwch o ran y cymorth a'r hawliau i'r grŵp hwn o ddysgwyr.

O dan y Ddeddf, bydd un cynllun statudol, y cynllun datblygu unigol, yn cymryd lle'r ystod bresennol o gynlluniau sy'n adlewyrchu gwahanol gamau addysg. Bydd cael un cynllun yn hybu parhad yn y gwaith cynllunio ar gyfer pontio rhwng gwahanol gamau addysg – y blynyddoedd cynnar, yr ysgol ac addysg bellach. Bydd y person ifanc hefyd yn elwa gan fod y broses bontio'n rhan o broses adolygu'r cynllun datblygu unigol parhaus, yn hytrach na bod ar wahân iddi.

Bydd y cyfrifoldeb dros sicrhau addysg neu hyfforddiant ôl-16 arbenigol i berson ifanc er mwyn diwallu eu hanghenion rhesymol am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn trosglwyddo o Weinidogion Cymru i awdurdodau lleol. Bydd hyn yn gwella'r broses bontio drwy annog awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 i gydweithio i gynllunio ar gyfer cymorth a'i sicrhau, ac i wella'r ddarpariaeth leol sy'n berthnasol i anghenion unigol plant a phobl ifanc ag ADY. Mae hefyd yn darparu rhagor o gymhelliant i awdurdodau lleol ffurfio cysylltiadau rhwng adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen hyn er mwyn i blentyn neu berson ifanc bontio'n effeithiol i addysg uwch, ac i fod yn oedolyn yn y pen draw.

Bydd y fframwaith hefyd yn gwella'r broses o gynllunio a chyflenwi darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i nodi anghenion yn gynnar, gan roi cymorth a threfniadau monitro effeithiol ar waith, ac addasu ymyriadau i sicrhau eu bod yn gwireddu'r canlyniadau a ddymunir.

O ran y rolau statudol sydd wedi'u deddfu o dan y system ADY, daethant yn gyfraith a chawsant eu creu ym mis Ionawr 2021. Dyma'r rolau:

- Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig
- Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar

Cychwynnodd y ddyletswydd i ddynodi'r rolau hyn ar 4 Ionawr i sicrhau eu bod ar waith cyn i'r Ddeddf ddod i rym. Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddwyd canllawiau anstatudol a godwyd o'r Cod ADY diwygiedig sy'n darparu gwybodaeth am y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r rolau hyn. Pwrpas hyn oedd helpu unrhyw un yn y rolau hyn baratoi eu hunain a'u lleoliadau ar gyfer cychwyn y Ddeddf o fis Medi 2021 ymlaen.

Cafodd y Cod ADY ei osod gerbron y Senedd ar 2 Mawrth 2021.

Mae cynnydd sylweddoli wedi'i wneud mewn cysylltiad â'n Rhaglen Drawsnewid ehangach hefyd. Mae cynnig dysgu proffesiynol ADY, wedi'i anelu at Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol presennol ac athrawon sy'n dymuno cyflawni'r rôl, wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae cynnwys y cwrs wrthi'n cael ei lunio gan gydweithrediad rhwng Prifysgolion Cymru, ynghyd â'n Harweinwyr Trawsnewid a chynrychiolwyr o'r sector. Bydd y dysgu ar gael ar ffurfiau cydnabyddedig ac achrededig. Bydd y dysgu achrededig yn cyfrif tuag at Radd Meistr mewn ADY. Bydd y modiwlau dysgu proffesiynol cyntaf ar gael o fis Medi 2021 ymlaen.

Mae'r cyntaf o bedwar becyn dysgu ar-lein ar gyfer y system ADY newydd bellach ar gael ar Hwb. Mae'n rhoi trosolwg o'r diwygiadau i'r system ADY ac wedi'i anelu at bob cynulleidfa. Bydd y tri phecyn dysgu sy'n weddill, bob un wedi'i anelu at gynulleidfaoedd mwy penodol (fel y rhai sy'n cyflawni rolau statudol a grëwyd o dan y system ADY newydd ac arweinwyr strategol mewn sefydliadau rhanddeiliaid fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd) yn cael eu cyhoeddi dros y misoedd nesaf.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n pum Arweinydd Trawsnewid, sydd wedi cael eu cadw am 12 mis arall. Mae'r Arweinwyr Trawsnewid yn parhau i helpu awdurdodau lleol, ysgolion, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, y sector addysg bellach a byrddau iechyd lleol i baratoi ar gyfer lansiad y system ADY newydd.

7.2 Iechyd a gwasanaethau iechyd

The Committee is concerned at the inequality in access to health services and health outcome, negatively affecting Roma, Gypsy and Traveller children, children belonging to other ethnic minorities, migrant children, children living in poverty and in deprived areas, children in care and in custody, children living with HIV/AIDS and LGBTI children.

With reference to its general comment no. 15 (2013) on the right of the child to the enjoyment of the highest attainable standard of health, the Committee recommends that the State party, the governments of devolved administrations, Overseas Territories and Crown Dependencies develop comprehensive and multi-sectoral strategies on child health:

(a) With allocation of the maximum extent of available resources and a robust monitoring mechanism;

(b) With a strong focus on eliminating inequalities in health outcome as well as in access to health services;

(c) Addressing underlying social determinants of health.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldeb Iechyd

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi gosod Cymru sy'n fwy cyfartal fel nod i bob gwasanaeth cyhoeddus ac mae camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn nodwedd amrywiaeth o ymrwymiadau gan y Llywodraeth, gan gynnwys rhaglenni cyflogaeth, tai o ansawdd, a mynediad at ofal plant.

Mae Llywodraeth Cymru'n cymryd camau gweithredu trawslywodraethol i greu cymdeithas sy'n fwy cyfartal ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd. Mae hyn yn cynnwys darparu mynediad cyffredinol at wasanaethau o ansawdd yn y blynyddoedd cynnar, system addysg a dysgu gynhwysol, cyflogaeth ac amodau gwaith o ansawdd da, yn ogystal ag amgylchedd iach i bawb.

Rydym yn cefnogi gwell integreiddio o'r cynnig blynyddoedd cynnar, gan gynnwys Rhaglen Plant Iach Cymru sydd wedi cael ei datblygu fel ein cynnig GIG cyffredinol safonol i bob teulu â phlant rhwng 0 a 7 oed. Mae'r rhaglenni'n cynnig ystod gyson o fesurau atal ac ymyrryd yn gynnar sy'n seiliedig ar dystiolaeth, canllawiau i gefnogi magu plant, a dewisiadau byw'n iach, yn ogystal â nodi teuluoedd y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

Dros amser, rydym yn rhag-weld y bydd y rhaglen yn helpu i leihau anghydraddoldeb drwy sicrhau bod gwasanaeth cyffredinol â llai o amrywiaeth yn ei ansawdd yn cael ei ddarparu ledled Cymru, a bod gwasanaethau uwch yn cael eu targedu'n well at y rhai y mae angen cymorth arnynt.

Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020-21, byddwn wedi darparu dros £1.7 miliwn i Ganolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru i helpu sefydliadau, cymunedau ac unigolion i ddeall mwy am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac i gefnogi teuluoedd a allai fod mewn perygl o'r profiadau hyn.

Rydym yn helpu plant sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd i gael y dechrau gorau mewn bywyd drwy ein rhaglen Dechrau'n Deg, sy'n cynnwys gwasanaeth ymweliadau iechyd uwch.

7.3 Iechyd Meddwl

The Committee welcomes the significant efforts undertaken both at the national and devolved levels in order to improve mental health services. The Committee is nevertheless concerned that:

(a) The number of children with mental health needs is increasing across the State party, including those related to alcohol, drug and substance abuse;

(b) The number of child suicides has been steadily increasing in Northern Ireland in the past ten years;

(c) Children with mental health conditions are often treated far away from home (England and Scotland), do not receive adequate child-specific attention and support, are placed in adult facilities, or may even be detained in police custody due to shortage of places in mental health clinics;

(d) The new shortened waiting period targets established or planned in England, Wales and Scotland may not be realized in practice due to a lack of infrastructure (number of specialists and clinics/centres);

(e) The significant investments in improving mental health services will not necessarily lead to an improvement of the quality of services;

(f) Therapeutic community-based services have not been sufficiently developed;

(g) Children under the age of 16 years are excluded from the protection under the Mental Capacity Act (2005) in England and Wales, as well as under the Mental Capacity Act (2016) in Northern Ireland, including with regard to medical treatment without consent.

The Committee recommends that the State party:

(a) Regularly collect comprehensive data on child mental health, disaggregated across the life course of the child, with due attention to children in vulnerable situations, and covering key underlying determinants;

(b) Rigorously invest in child and adolescent mental health services and develop strategies at national and devolved levels, with clear time frames, targets, measureable indicators, effective monitoring mechanisms and sufficient human, technical and financial resources. Such strategy should include measures to ensure availability, accessibility, acceptability, quality and stability of such services, with particular attention to children at greater risk, including children living in poverty, children in care and children in contact with the criminal justice system;

(c) Expedite the prohibition of placement of children with mental health needs in adult psychiatric wards or police stations, while ensuring provision of age-appropriate mental health services and facilities;

(d) Support and develop therapeutic community-based services for children with mental health conditions;

(e) Review current legislation on mental health to ensure that the best interests and the views of the child are taken duly into account in cases of mental health treatment of children below the age of 16, in particular with regard to hospitalization and treatment without consent.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Data Iechyd Meddwl Plant

Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ystadegau ar weithgarwch ysbytai yn rheolaidd, fel Atgyfeirio ar gyfer Triniaeth a Damweiniau ac Achosion Brys, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Mae data Mesur Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol hefyd yn cael eu cyhoeddi, wedi'u rhannu yn ôl oedran i nodi'r amseroedd aros i bobl dan 18 oed.

Mae Bwrdd Prosiect Set Ddata Graidd Genedlaethol Iechyd Meddwl wedi cael ei sefydlu i ddarparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer datblygu Set Ddata Graidd Genedlaethol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu safonol a fydd yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl i bobl o bob oedran.
Ochr yn ochr â gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru sy'n cefnogi model iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd, bydd y set ddata'n sicrhau bod yr holl bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol yn casglu gwybodaeth yn yr un ffordd. Mae'r set ddata'n creu amrywiaeth eang o fanteision, sydd eisoes yn cael eu gwireddu. Yn y pen draw, mae'r set ddata'n cynnig darpariaeth gwasanaethau a gwaith integredig gwell.

Buddsoddi mewn Iechyd Meddwl Plant

Mae Cyllideb 2021-22 yn cynnwys dyraniad newydd o £20m ar gyfer Iechyd Meddwl i bob oedran er mwyn cynyddu'r cymorth ar draws ystod o feysydd blaenoriaeth. Mae hyn yn cyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl drwy gyllid gwella gwasanaethau, ond mae hefyd yn cynnwys adnoddau ychwanegol ar gyfer pethau fel Gofal Mewn Argyfwng, gwasanaethau anhwylderau bwyta, a chymorth Haen 0 ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn glir ei bod yn disgwyl i fyrddau iechyd sicrhau bod cyfran o'r £20m o gyllid gwella gwasanaethau yn cael ei buddsoddi mewn meysydd sy'n gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Ar ben y cyllid gwella gwasanaethau, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £9.4m o gyllid yn benodol i feysydd gwaith sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc yn unig.

Bydd £5.4 miliwn o'r cyllid hwn yn cryfhau'r cymorth mewn timau iechyd meddwl cymunedol er mwyn darparu cymorth mwy dwys, gyda'r nod o leihau'r angen i dderbyn cleifion mewnol a darparu cam i lawr o ddarpariaeth i gleifion mewnol. Bydd bob amser achosion lle bydd ymyriad CAMHS arbenigol ar gyfer y plant mwyaf agored i niwed yn gofyn am driniaeth fel claf mewnol o bosibl, a bydd rhywfaint o'r cyllid hwn hefyd yn cefnogi gwelliannau i'n darpariaeth Haen 4 ac yn sicrhau ein bod yn gallu defnyddio'r capasiti llawn.

Bydd £4 miliwn yn helpu i ehangu rhaglen beilot Mewngymorth Ysgolion CAMHS, a fydd yn elwa ar gyllid ychwanegol sy'n anelu at feithrin gallu mewn ysgolion, gan gynnwys sgiliau, gwybodaeth a hyder, i gefnogi iechyd meddwl a llesiant disgyblion a gwella mynediad ysgolion at gyswllt, ymgynghoriaeth a chyngor arbenigol pan fo angen.

Lleoliadau addas i'r oedran

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi sefydlu panel rheoli gwlâu CAMHS newydd, sy'n cwrdd yn wythnosol. Nod y Panel yw deall capasiti gwlâu presennol y GIG a darparwyr yn y sector annibynnol, ac unrhyw effeithiau niweidiol problemau staff, aciwtedd cleifion a chyfyngiadau ar y capasiti hwnnw. Mae hefyd yn asesu'r galw presennol gan wasanaethau cymunedol am wely i glaf mewnol CAMHS ar lefel unigol, ac yn darparu atebion i fynd i'r afael ag unrhyw anghysondeb rhwng y galw a'r capasiti yn rheolaidd.

Rydym yn gweithio gyda byrddau iechyd i ddatblygu protocolau asesu cyflym y cytunir arnynt yn genedlaethol er mwyn lleihau'r amser y mae'r bobl ifanc hyn yn ei dreulio yn y gwlâu hyn. Ni ddylid edrych ar y gwaith hwn i gefnogi gofal iechyd meddwl i gleifion mewnol ifanc ar ei ben ei hun. Mae'r gwaith integredig â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys treialu darpariaeth llety diogel ym Mhowys, wedi'i raglennu i redeg ochr yn ochr â'r gwaith.

Gwasanaethau therapiwtig cymunedol

Yn 2020-21, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £2.7 miliwn ychwanegol i ddarparu mynediad ar unwaith at gymorth haen 0/1, mewn ymateb i'r lefelau pryder uwch sydd i'w gweld drwy ein dadansoddiad o arolygon a thystiolaeth ehangach. Mae'r cyllid hwn wedi darparu cymorth i bobl ifanc gael gafael arno eu hunain, er enghraifft drwy'r pecyn cymorth Iechyd Meddwl Ieuenctid, SilverCloud (16+), a llinell gymorth CALL. Rydym hefyd wedi buddsoddi £1.252m i ehangu cwnsela mewn ysgolion, gan sicrhau bod cysylltiadau ym mhob awdurdod lleol ar gael ar-lein i bobl ifanc nad ydynt yn mynd i'r ysgol yn bersonol.

Rydym yn parhau i dynnu sylw at y ddarpariaeth sydd ar gael ac wedi gweithio gyda phartneriaid fel ysgolion, awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddangos i bobl ifanc ble gallant gael cymorth. Rydym hefyd wedi cynyddu ein gweithgarwch cyfathrebu ar draws llwyfannau i hyrwyddo mynediad at gymorth lefel isel yn uniongyrchol i bobl ifanc. Pan fydd angen cymorth ychwanegol gwasanaethau iechyd meddwl ar bobl ifanc, mae pob bwrdd iechyd wedi parhau i brosesu atgyfeiriadau.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru i gynorthwyo pobl ifanc nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cymorth CAMHS uniongyrchol yn cael ei roi ar sail trawslywodraethol, gan gynnwys cymorth drwy ddarpariaeth addysg a gwaith ieuenctid. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi rhanbarthau Cymru sy'n defnyddio Cyllid Gofal Integredig a Chyllid Trawsnewid drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Deddfwriaeth Iechyd Meddwl

Mae Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid newydd yn bwnc a gedwir yn ôl. Felly, Llywodraeth y DU ddylai wneud sylw ar bryderon Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ynglŷn â phlant dan 16 oed yn cael eu heithrio o'r amddiffyniad o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â thriniaeth feddygol heb gydsyniad.

Nid oes gan Weinidogion Cymru bwerau gwneud rheoliadau o dan y Ddeddf o ran gweithredu'r trefniadau amddiffyn yng Nghymru mewn cysylltiad â Gweithwyr Galluedd Meddyliol Proffesiynol Cymeradwy, Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol, monitro ac adrodd, a phwy sy'n gallu cynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Papur g ar iechyd meddwl yn ddiweddar. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried ei gynigion ac i ba raddau y gallai hyn arwain at ddeddfwriaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

7.4 Iechyd Meddwl

The Committee welcomes the publication of new Guidelines for the diagnosing and management of the attention deficit hyperactivity disorder (ADHD) and related disorders by the National Institute for Health and Care Excellence. The Committee is however concerned that:

(a) The actual number of children that are given methylphenidate or other psychotropic drugs is not available;

(b) There is reportedly a significant increase in the prescription of psycho-stimulants and psychotropic drugs to children with behavioural problems, including for children under 6 years of age, despite growing evidence of the harmful effects of these drugs.

The Committee recommends that the State party:

(a) Regularly collect data on the amount and regularity of psychotropic drugs (Ritalin, Concerta etc.) being prescribed to children, and make the data transparent;

(b) Ensure that prescription of drugs is used as a measure of last resort and only after an individualized assessment of the best interests of that child, and that children and their parents are properly informed about the possible side effects of this medical treatment and about non-medical alternatives;

(c) Establish a system of independent expert monitoring of the ADHD and related disorders diagnoses, and undertake a study on the root causes of their increase, also aimed at improving the accuracy of diagnoses.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Casglu data ar gyffuriau seicotropig

Mae GIG Cymru'n casglu data ar ragnodi meddyginiaethau ac yn cyhoeddi'r data hyn yn fisol. Nid yw data rhagnodi'n cael eu casglu gan grwpiau o gleifion ar hyn o bryd. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd yr Awdurdod Iechyd Strategol sydd newydd ei sefydlu yn casglu data rhagnodi ar lefelau grwpiau o gleifion ar draws nifer o feddyginiaethau, gan gynnwys cyffuriau seicotropig.

Rhagnodi cyffuriau

Ym mis Ionawr 2015, cafodd Prifysgol Abertawe ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi data rhagnodi ar gyfer plant a phobl ifanc mewn cysylltiad â meddyginiaeth Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD), gwrth-iselyddion a gwrthseicotigau.

Cyhoeddodd Gylchlythyr Iechyd Cymru i bob meddyg teulu i ail-ddweud mai dim ond fluoxetine sydd wedi'i brofi i fod yn effeithiol wrth ragnodi ar gyfer iselder ymysg plant a'r glasoed, a phan gaiff ei roi, dylid ei fonitro'n ofalus yn unol â'r canllawiau cyfredol. Dim ond arbenigwr ddylai argymell defnyddio meddyginiaeth arall i drin iselder, a dim ond pan fo trefniadau monitro parhaus ar waith.

Monitro ADHD

Mae ADHD yn un o nifer o gyflyrau y mae Timau Niwroddatblygu yng Nghymru yn gwneud diagnosis ohonynt a'u trin. Bydd y gwaith o ddatblygu gwasanaethau i blant ac oedolion yn dyfodol yn seiliedig ar adolygiad o'r galw am wasanaethau niwroddatblygu a'u capasiti. Bydd adolygiad annibynnol yn cychwyn yn gynnar ym mis Ebrill 2021.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ailgomisiynu Prifysgol Abertawe i gynnal astudiaeth gymharol o'r data gwreiddiol ar dueddiadau rhagnodi. Bydd hon yn dystiolaeth bellach a fydd yn dylanwadu ar yr adolygiad hwn o'r galw a'r capasiti. Bydd gwaith Gwelliant Cymru ar ganlyniadau hefyd yn sicrhau bod yr ymyriadau a ddefnyddir yn effeithiol i blant.

I gefnogi gwelliant gwasanaethau ar gyfer y bobl ifanc hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ac o ganlyniad, mae amcanion cytunedig y rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc hyd 2021/2022 yn dal yr un fath, sef:

- Datblygu fframwaith cenedlaethol sy'n disgrifio'r cymorth cynnar a'r cymorth uwch a ddylai fod ar gael ym mhob rhan o Gymru, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r hyn sy'n cael ei alw yn 'ganol coll'. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
- Parhau i wreiddio'r Llwybr Niwroddatblygu a'r safonau a ddatblygwyd yng ngham cyntaf y Rhaglen.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu ymateb system gyfan i blant a phobl ifanc â chyflyrau Niwroddatblygu. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys cysylltiadau

perthnasol â gweithredu darpariaethau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2018. Bydd datblygu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer Cymorth Cynnar a Chefnogaeth Uwch yn ceisio darparu cynnig cynnar i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd, a fyddai fel arall yn cael eu hatgyfeirio i'r tîm Niwroddatblygu.

7.5 Iechyd y Glasoed

The Committee notes with appreciation a steady decrease in teenage pregnancies in the State party during the period of review. However, the Committee is concerned that:

(a) The rate of teenage pregnancies is still higher than European Union average and higher in more deprived areas;

(b) Relationships and sexuality education is not mandatory in all schools, its contents and quality varies depending on the school, and LGBT children do not have access to accurate information on their sexuality;

(c) In Northern Ireland, abortion is illegal in all cases except where continuance of the pregnancy threatens the life of the mother, and is sanctioned with life imprisonment.

With reference to its general comments No.4 (2003) on adolescent health and No. 15 (2013), the Committee recommends that the State party:

(a) Develop and adopt a comprehensive sexual and reproductive health policy for adolescents, with particular attention to reducing inequalities and with participation of adolescents;

(b) Ensure that meaningful sexual and reproductive health education is part of the mandatory school curriculum for all schools, including academies, special schools and youth detention centres, in all areas of the State party. Such education should provide age-appropriate information on: confidential sexual and reproductive health-care services; contraceptives; prevention of sexual abuse or exploitation, including sexual bullying; available support in cases of such abuse and exploitation; and sexuality, including that of LGBT children.

(c) Decriminalize abortion in Northern Ireland in all circumstances and review its legislation with a view to ensuring girls' access to safe abortion and post-abortion care services. The views of the child should always be heard and respected in abortion decisions.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

<u>Iechyd y Glasoed – Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yng Nghwricwlwm Cymru</u>

Bydd addysg cydberthynas a rhywioldeb yn ofyniad statudol yn y Cwricwlwm newydd i Gymru, a gyflwynir ym mis Medi 2022, gan sicrhau bod gan yr holl bobl ifanc yr hawl i gael mynediad sy'n eu diogelu rhag niwed ac yn rhoi gwybod iddynt

beth sy'n briodol ac yn amhriodol, er mwyn iddynt allu codi materion ag oedolion cyfrifol.

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn chwarae rôl bwysig yn diogelu ac amddiffyn yr holl ddysgwyr yng Nghymru. Mae gan rieni rôl ganolog yn hyn o beth, ond mae gan ysgolion rôl hollbwysig hefyd. Bydd gan ysgolion y potensial i greu amgylcheddau diogel a grymusol sy'n adeiladu ar ddysgu a phrofiadau ffurfiol ac anffurfiol y dysgwyr, a hynny all-lein ac ar-lein.

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb o ansawdd uchel yn bwysig ar gyfer helpu dysgwyr i adnabod cydberthnasau iach a diogel, a deall a datblygu parch tuag at wahaniaethu rhwng pobl. Bydd yn galluogi dysgwyr i reoli risgiau, i fynegi syniadau ac emosiynau, i ddatblygu a chynnal perthnasau iach, ac ysgwyddo gwahanol rolau a chyfrifoldebau.

Ynghyd â'r canllawiau statudol ar addysg cydberthynas a rhywioldeb, bydd cod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn creu gofynion gorfodol o ran beth sy'n rhaid ei addysgu fel rhan o'r addysg. Bydd hyn yn sicrhau cynnwys tryloyw sy'n addas i'r oedran ac yn briodol yn ddatblygiadol i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed.

7.6 Maeth

The Committee is concerned about the:

(a) High prevalence of overweight and obesity among children in many parts of the State party;

(b) Lack of comprehensive data on child food security, while some research indicate that currently available programmes, such as free school meal programmes, may not be effectively responding to child hunger;

(c) Extremely low rate of breastfeeding, and only one percent of women maintaining exclusive breast feeding for six months in 2010, and inadequate regulation of marketing of breastmilk substitutes.

The Committee recommends that the State party:

(a) Systematically collect data on food security and nutrition for children, including those relevant to breast-feeding, overweight and obesity, in order to identify root causes of child food insecurity and malnutrition;

(b) Regularly monitor and assess effectiveness of policies and programmes on food security and nutrition of children, including school meal programmes and food banks, as well as programmes addressing infants and young children;

(c) Promote, protect and support breastfeeding in all policy areas where breastfeeding has an impact on child health, including obesity, certain non-communicable diseases, and mental health, and fully implement the International Code of Marketing of Breastmilk Substitutes

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Bwydo ar y Fron

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod bwydo ar y fron yn bwysig i iechyd a datblygiad babanod a'u mamau, a'i fod yn gysylltiedig ag atal anghydraddoldeb iechyd sylweddol. O ran yr ethos hwn a'r gred y dylai pob plentyn yng Nghymru gael y dechrau gorau mewn bywyd (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015), mae bwydo ar y fron yn gallu rhoi dechrau gwell i blentyn mewn bywyd. Fodd bynnag, cydnabyddir efallai nad yw pob merch yn dewis bwydo yn y modd hwn. Mae'n hollbwysig bod gan bob teulu fynediad at ddigon o wybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus, a'u bod yn cael eu cefnogi ym mha ddewis bynnag y maen nhw'n ei wneud.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Cynllun Gweithredu ar Fwydo ar y Fron ym mis Gorffennaf 2019 gyda'r nod strategol y bydd rhagor o fabanod yng Nghymru yn cael eu bwydo ar y fron, ac am gyfnod hirach, a bydd yr anghydraddoldeb presennol mewn cyfraddau bwydo ar y fron rhwng grwpiau yn cael ei leihau. Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys nifer o gamau gweithredu lleol a chenedlaethol, ac mae Bwrdd Llywio Strategol wedi cael ei sefydlu i helpu i arwain y gwaith hwn.

Bwyta'n iach mewn ysgolion

Mae Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 yn berthnasol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sy'n darparu bwyd a diod i ddisgyblion ysgolion a gynhelir, boed nhw ar dir yr ysgol ai peidio, ac i bobl eraill ar dir yr ysgol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r mathau o fwyd a diod y gellir eu darparu ac na ellir eu darparu yn ystod y diwrnod ysgol, ac yn diffinio cynnwys maeth cinio ysgol. Nod y Rheoliadau yw gwella safonau maeth y bwyd a diod sy'n cael ei weini mewn ysgolion ledled Cymru i sicrhau bod bwyd a diod iach yn cael ei gynnig i blant a phobl ifanc drwy gydol y diwrnod ysgol. Mae deiet mwy maethlon yn ystod y diwrnod ysgol a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi bwyta'n iach yn yr amgylchedd ehangach yn ffactorau hollbwysig ar gyfer helpu i leihau problemau iechyd sy'n ymwneud â deiet fel clefyd y galon, diabetes a gordewdra.

Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yw bodloni eu hunain eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y rheoliadau. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn helpu awdurdodau lleol i gydymffurfio.

Fel rhan o'i gylch gwaith, mae Estyn yn adrodd ar y trefniadau a wneir i hyrwyddo bwyd a diod iach mewn ysgolion a gynhelir ac mae wedi cynhyrchu canllawiau ar arolygu i ba raddau mae ysgolion a gynhelir (cynradd, uwchradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion) yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o fyw'n iach.

Ers dechrau pandemig Covid-19, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £52 miliwn o gyllid ychwanegol er mwyn sicrhau nad yw'r rhai sy'n dibynnu ar brydau ysgol am ddim wedi colli allan pan nad oeddent yn mynychu'r ysgol. Mae hyn wedi cynnwys darpariaeth yn ystod gwyliau'r ysgol hyd at ac yn cynnwys Pasg 2021. Mae

cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol drwy gydol y flwyddyn ariannol.

Cymru wnaeth arwain y ffordd yn y DU drwy gyflwyno brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd yn 2004; nawr, o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau bod y ddarpariaeth o frecwast am ddim mewn ysgolion cynradd yn parhau.

Cafodd Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf ei datblygu i ddarparu prydau bwyd o ansawdd da, sgiliau maeth ac addysg chwaraeon i blant sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol. Roedd y rhaglen yn anelu at fynd i'r afael â phroblemau fel ansicrwydd o ran bwyd, colli cyfleoedd dysgu dros y gwyliau, ac allgáu cymdeithasol. Mae'r Rhaglen wedi darparu cyfleoedd i blant fod yn fwy egnïol, bwyta'n iach a gwneud ffrindiau, ar yr un pryd â manteisio i'r eithaf ar gyfleusterau ysgolion lleol. Yn ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £4.85 miliwn er mwyn ariannu rhaglen wedi'i hehangu'n sylweddol gyda'r potensial i gynnig hyd at 14,000 o leoedd yn ystod haf 2021.

7.7 Iechyd yr Amgylchedd

The Committee is concerned at the high level of air pollution that directly affects child health in the State party and contributes to the negative impact of climate change affecting various rights of the child, both in the State party and in other countries.

With reference to Sustainable Development Goal 1, Target 1.5, the Committee recommends that the State party, including the devolved administrations in relation to devolved matters;

(a) Set out a clear legal commitment, with appropriate technical, human and financial resources, to scale up and expedite the implementation of plans to reduce air pollution levels, especially in areas near schools and residential areas;

(b) Place children's rights at the centre of national and international climate change adaptation and mitigation strategies, including through its new domestic climate strategy, as well as in the framework of its international climate change programmes and financial support.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Cynllun Aer Glân i Gymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach ym mis Awst 2020. Mae'r Cynllun yn nodi nifer o gamau gweithredu ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, ar sail tymhorau'r Senedd, sydd wedi'u hanelu at wella'r monitro, at leihau'r lefelau llygredd aer yng Nghymru, ac at ddiogelu iechyd y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, yn enwedig plant.

Ym mis Ionawr 2021 fe wnaethom gyhoeddi Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru). Mae'n cynnwys cynigion ar gyfer deddfwriaeth ar fonitro a gadael injan car i droi'n llonydd, gyda ffocws penodol ar feysydd sensitif fel ysgolion ac ysbytai. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn cynnwys darpariaethau i alluogi targedau ansawdd aer uchelgeisiol, ac yn mynnu bod Cynllun Aer Glân newydd yn cael ei adolygu a'i gyhoeddi ar ôl cyfnod penodol.

Mae'r Cynllun a'r Papur Gwyn yn ystyried CCUHP a'r materion unigryw sy'n ymwneud â phlant yn dod i gysylltiad â llygryddion aer. Rydym yn cydnabod bod materion sylweddol yn ymwneud â phlant yn dod i gysylltiad â llygryddion aer, sy'n gallu effeithio ar ddatblygiad corfforol a gwybyddol plant. Gall problemau iechyd hirdymor atal plant rhag mynychu'r ysgol, a all yn ei dro niweidio eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Drwy addysg, byddwn yn grymuso plant â'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i helpu i fynd i'r afael â llygredd aer, gan gydnabod y rolau pwysig sydd ganddynt fel cyfryngwyr newid.

Bydd y darpariaethau yn y Bil Aer Glân yn cynyddu'r hawl i iechyd drwy leihau llygredd aer. Drwy leihau effeithiau ansawdd aer gwael ar iechyd plant, rydym yn lleihau'r potensial i lygredd aer achosi niwed datblygiadol i bobl ifanc.

Gall y Bil, drwy ganllawiau ar rymuso gweithluoedd, fynd i'r afael â llygredd aer ger ysgolion. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad cyfartal at fathau priodol o wybodaeth am newid ymddygiad. Bydd hyn hefyd yn cefnogi cynlluniau i'w galluogi i ddeall y materion sy'n ymwneud â llygredd aer ac i wneud dewisiadau ynghylch eu rôl nhw yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

Drwy gydol proses y Bil byddwn yn sicrhau bod lles pennaf y plentyn yn ystyriaeth allweddol, gan gynnwys drwy gydol y cyfnod gweithredu.

Ym mis Ionawr 2021 fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar leihau allyriadau yn sgil llosgi tanwydd solet i ddibenion domestig. Mae'r dystiolaeth yn gadarn o ran cyfraniad y ffynhonnell hon i'r lefel gyffredinol o ddeunydd gronynnol. Bydd y cynigion yn gwahardd gwerthu glo tŷ a choed gwlyb, ac ymestyn y ddarpariaeth o ardaloedd rheoli mwg i'r rhan fwyaf o ardaloedd trefol yng Nghymru, gan leihau'r risg o lygredd aer mewn ardaloedd preswyl.

Rhaglen Datgarboneiddio

Bob pum mlynedd mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun o bolisïau a chynigion ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol a'i chyllideb garbon. Caiff y cynllun nesaf ei gyhoeddi fis Tachwedd 2021 a bydd yn ymwneud â Chyllideb Garbon 2 (2021-25). Y cynllun fydd y cyntaf i Lywodraeth Cymru ei osod sy'n cyd-fynd â llwybr tuag at allyriadau sero net erbyn 2050. Bydd y cynllun yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i newid i sero net, ymrwymiad sydd â chyfiawnder wrth ei galon. Mae effaith y newid rydym yn ei weld yn yr hinsawdd, a'r newid i'r economi sy'n cael ei sbarduno gan ein huchelgais sero net, yn creu risgiau mwy i'r rhai â llai o reolaeth dros y newid. Mae hyn yn cynnwys plant. Yn y cynllun bydd cynnwys sydd wedi'i greu gyda phobl ifanc i amlinellu'r camau gweithredu maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac i rannu eu gobeithion o ran beth fydd pobl eraill yn ei wneud. Mae'r polisïau yn y cynllun yn eiddo i amrywiol dimau ar draws

Llywodraeth Cymru ac yn destun nifer o asesiadau effaith statudol ac anstatudol, gan gynnwys eu heffaith ar hawliau plant.

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi dwy raglen addysg amgylcheddol, Maint Cymru ac Eco-Sgolion, ac mae wedi ymestyn eu cyllid grant i 2023. Mae'r rhaglenni hyn wedi ymgysylltu â dros 600,000 o blant a phobl ifanc, gan eu grymuso i sbarduno newid, i wella eu hymwybyddiaeth amgylcheddol, i gymryd camau gweithredu ac i ddysgu am y newid yn yr hinsawdd a phwysigrwydd coedwigoedd a diogelu ein hecosystemau. Yn ystod Wythnos yr Hinsawdd Cymru ym mis Tachwedd 2020, cynhaliodd Eco-Sgolion sesiwn fyw ar-lein gydag ysgolion i drafod effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar bobl ifanc ac edrych ar sut gall pobl ifanc gymryd camau gweithredu eu hunain mewn ysgolion ac yn eu cymunedau. Roedd rhaglen Llysgennad Ifanc Maint Cymru wedi cwrdd â chynghorwyr lleol a'r Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth i drafod y gwaith mae'n ei wneud mewn ysgolion a chymunedau, a sut mae'n ceisio helpu pobl ifanc eraill i gymryd camau gweithredu mewn perthynas â'r argyfwng hinsawdd. Hefyd roedd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi cwrdd yn ddiweddar â phobl ifanc, ynghyd â'r Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i archwilio sut gallwn ni gydweithio'n well i gyflawni'r camau gweithredu y mae angen inni eu gweld.

Ym mis Mawrth 2020 fe wnaethom gynnal cynadleddau yng ngogledd a de Cymru i ddod â dros 150 o bobl ifanc ynghyd i ysgogi syniadau newydd, a rhoi llwyfan iddynt ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Rydym hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol tuag at gynadleddau MockCOP; y llynedd, ymgysylltwyd â dros 40 o ysgolion uwchradd i drafod materion hinsawdd rhyngwladol ac edrych ar atebion. Mae'r Rhaglen Datgarboneiddio yn Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda chyd-weithwyr i sicrhau bod y newid yn yr hinsawdd yn cael rhan briodol yn y cwricwlwm newydd.

7.8 Safon Byw

The Committee is seriously concerned that:

(a) The rate of child poverty remains high with a disproportionate representation of children with disabilities, children living in a family or household with person(s) with disability, households with many children, and children belonging to ethnic minority groups, and affecting children in Wales and Northern Ireland the most.

(b) The Welfare Reform and Work Act (2016), which amends the Child Poverty Act (2010), repealed the statutory target on the eradication of child poverty by 2020 and the statutory obligation of the UK Government and the governments of England, Scotland and Wales to produce child poverty strategies;

(c) Recent amendments to the Tax Credits Act (2002), the Welfare Reform Act (2012) and the Welfare Reform and Work Act (2016) have limited the entitlement to child tax credits and social benefits (the "household benefit cap" and the "bedroom tax"), regardless of the needs of the households;

(d) During the period of review, the number of homeless households with dependent children has increased in England and Northern Ireland, as well as the number of homeless families, including those with infants, staying in temporary accommodation in all four jurisdictions;

(e) In Scotland, adequate and culturally sensitive accommodation for Roma, Gypsy and Traveller children remains insufficient.

The Committee draws the attention of the State party to the Sustainable Development Goal 1, Target 1.2, on poverty reduction and urges the State party to:

(a) Set up clear accountability mechanisms for the eradication of child poverty, including by re-establishing concrete targets with a set timeframe and measurable indicators, and continue regular monitoring and reporting on child poverty reduction in all parts of the State party;

(b) Ensure clear focus on the child in the State party's poverty reduction strategies and action plans, including in the new "Life Chances Strategy", and support production and implementation of child poverty reduction strategies in devolved administrations;

(c) Conduct a comprehensive assessment of the cumulative impact of the full range of social security and tax credit reforms introduced between 2010 and 2016 on children, including children with disabilities and children belonging to ethnic minority groups;

(d) Where necessary, revise the mentioned reforms in order to fully respect the right of the child to have his or her best interests taken as a primary consideration, taking into account the different impact of the reform on different groups of children, particularly those in vulnerable situations;

(e) Strictly implement the legal prohibition of prolonged placement of children in temporary accommodation by public authorities in England, Wales and Scotland, and enact similar legislation in Northern Ireland;

(f) Take necessary measures to reduce homelessness and to progressively guarantee all children stable access to adequate housing which provides physical safety, adequate space, protection against the threats to health and structural hazards, including cold, damp, heat and pollution, and accessibility for children with disabilities.

(g) In Scotland, introduce a statutory duty for local authorities to provide safe and adequate sites for Travellers, while ensuring meaningful participation of Roma, Gypsy and Traveller communities, including children, in planning and decision-making processes.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Mecanweithiau Atebolrwydd ar gyfer Dileu Tlodi Plant

Nid oes gan Lywodraeth Cymru'r arfau polisi angenrheidiol i ddileu tlodi plant. Mae pwerau dros y system dreth a lles, sydd eu hangen i sicrhau newid o'r fath, yn eiddo Llywodraeth y DU. Ers i ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU gael eu cyflwyno, mae Gweinidogion Cymru wedi ysgrifennu ar sawl achlysur i ofyn am wyrdroi'r polisïau niweidiol hyn.

Ein dangosydd allweddol o dlodi plant yw canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd sy'n ennill o dan 60% o incwm canolrifol aelwydydd y DU (ar ôl costau tai). Yn ogystal â hynny, mae Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru yn cynnwys set ehangach o ddangosyddion allweddol i fesur y cynnydd yn erbyn cyflawni amcanion y Strategaeth. Mae'r dangosyddion hyn yn adlewyrchu'r arfau polisi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd set o 46 o Ddangosyddion Cenedlaethol i Gymru yn mesur y cynnydd cenedlaethol yn erbyn cyflawni'r saith nod llesiant. Mae nifer o'r Dangosyddion Cenedlaethol yr un fath â'r dangosyddion poblogaeth yn y Strategaeth Tlodi Plant, gan gynnwys cyrhaeddiad addysgol, nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, cyflogaeth, canlyniadau iechyd, a sgiliau.

Mae Deddf 2015 yn mynnu bod Gweinidogion Cymru'n gosod cerrig milltir cenedlaethol y maen nhw'n ystyried "y byddai'n helpu i fesur a yw cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni'r nodau llesiant". Mae'r gwaith ar ddatblygu cerrig milltir a fyddai'n helpu i fesur ein cynnydd o ran mynd i'r afael â thlodi plant bron ei gwblhau. Dylai'r garfan gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol gael ei chyhoeddi nes ymlaen eleni. Adroddir ar y cynnydd yn erbyn cyflawni'r nodau llesiant yn yr Adroddiad Llesiant Cymru blynyddol.

Yn 2019 fe wnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad Cynnydd statudol teirblynyddol ynghylch i ba raddau mae'r amcanion yn ein Strategaeth Tlodi Plant wedi cael eu cyflawni, fel sy'n ofynnol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Strategaeth Lleihau Tlodi Plant

Pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) ym mis Chwefror 2010, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant. Mae ein Strategaeth Tlodi Plant yn adlewyrchu natur drawsbynciol y gwaith o fynd i'r afael â thlodi plant. Mae mynd i'r afael â thlodi yn gyfrifoldeb i bob un o Weinidogion Cymru. Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol sy'n arwain y Strategaeth Tlodi Plant, gan gyd-drefnu gwaith ar draws y Llywodraeth i gyflawni ei hamcanion.

Mae adolygiad o'r rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei gynnal i sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf bosibl ar fywyd plant sy'n byw mewn tlodi. Gan ddefnyddio'r canfyddiadau ac ystyried y pwysau ariannol sydd ar lawer o deuluoedd bellach o ganlyniad i'r pandemig, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno

ar gyfres o gamau gweithredu ymarferol i helpu i gynyddu incwm teuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Mae'r camau gweithredu wedi'u nodi yn ein Cynllun Gweithredu Pwyslais ar Incwm, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020.

Mae mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, a chreu economi sy'n darparu ar gyfer teuluoedd a phlant yn dal yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Bydd cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yng Nghymru fis Mawrth 2021 yn golygu bod ymrwymiad statudol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth galon y broses gwneud penderfyniadau strategol.

Bydd y Ddyletswydd yn helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig â thlodi ac yn sicrhau gwell cydraddoldeb cymdeithasol yng Nghymru. Bydd yn gweithredu ochr yn ochr â'n dyletswydd statudol i fynd i'r afael â thlodi plant, y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a'n hymrwymiad i bartneriaeth gymdeithasol a gwaith teg.

Asesu effaith gronnol y diwygiadau treth a lles

Comisiynodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles raglen ymchwil tri cham i asesu effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar Gymru. Cynhyrchodd y dadansoddiad hwn nifer o adroddiadau rhwng 2012 a 2019.

Cafodd adroddiad arall, Lliniaru effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU, ei gyhoeddi yn 2015. Roedd yn cynnwys dadansoddiad o effaith y rhaglen diwygio lles ar wahanol fathau o aelwydydd, gan gynnwys y rhai â phlant a'r rhai â nodweddion gwarchodedig, er enghraifft.

Roedd Llywodraeth Cymru'n rhan o'r Grŵp Llywio Arbenigol ar gyfer dadansoddi, a oedd dan arweiniad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ar effaith gronnol y diwygiadau treth a lles. Mae'r adroddiad, Effaith Gronnol Diwygiadau Treth a Lles, a gyhoeddwyd yn 2018, yn cynnwys canfyddiadau ar lefel Cymru. Roedd y dadansoddiad yn edrych ar effaith gronnol y diwygiadau ar amrywiol fathau o aelwydydd, gan gynnwys y rhai â phlant anabl, ac ar wahanol grwpiau ethnigrwydd.

Rydym yn parhau i fonitro a dadansoddi effaith polisïau budd-daliadau lles ar fywyd llawer o aelwydydd yng Nghymru ac yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'n rhanddeiliaid, fel Cyngor ar Bopeth, i gael dealltwriaeth o'r profiad uniongyrchol o'r newidiadau hyn i fudd-daliadau.

Diwygio Lles a a Hawliau'r Plentyn

Mae hwn yn fater i Lywodraeth y DU, a gyflwynodd y diwygiadau. Mae Gweinidogion Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU nifer o weithiau i dynnu sylw at yr effaith niweidiol y mae'r diwygiadau'n ei chael ar aelwydydd yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu penderfyniad y Canghellor yn ddiweddar i beidio â dod â'r taliad ychwanegol o £20 yr wythnos i ben, a gyflwynwyd mewn ymateb i argyfwng y Coronafeirws er mwyn helpu aelwydydd incwm isel ledled Cymru sy'n cael Credyd Cynhwysol neu Gredyd Treth Gwaith. Fodd bynnag, rydym

wedi'n siomi mai dim ond hyd ddiwedd mis Medi 2021 y mae'r cymorth ariannol hollbwysig hwn wedi'i ymestyn, ac nad yw ar gael o hyd i aelwydydd incwm isel sy'n cael hen fudd-daliadau, fel y Cymhorthdal Incwm neu'r Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm. Mae'r penderfyniad hwn yn golygu bod miloedd o aelwydydd ledled Cymru yn dal yn ansicr ynglŷn â'u sefyllfa ariannol yn y tymor hir. Pe bai'r incwm ychwanegol yn cael ei dynnu'n ôl yn yr hydref, bydd yn sicr yn cael effaith niweidiol ar yr aelwydydd hyn. Mae llawer ohonynt eisoes mewn sefyllfa fregus yn ariannol o ganlyniad i'r pandemig. Rhagfynegir y byddai tua 300,000 o deuluoedd yng Nghymru ar eu colled pe na bai'r taliad ychwanegol yn cael ei gadw. Mae hyn yn cyfateb i 27% o deuluoedd oedran gweithio.

Rhoi plant mewn llety dros dro

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn sicrhau bod aelwydydd â phlant neu aelwydydd un person rhwng 16 a 18 oed, pan fyddant yn ddigartref, yn cael llety dros dro sy'n addas i anghenion yr aelwyd. Mae Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 yn nodi'r amserlenni a'r safonau ar gyfer defnyddio llety gwely a brecwast, a'r materion i'w hystyried wrth bennu a yw llety'n addas. Mae hyn yn cynnwys ystyried amhariad ar addysg a'r agosrwydd at gymorth.

Digartrefedd

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud trawsnewid gwasanaethau digartrefedd ledled Cymru yn flaenoriaeth, gyda'r nod tymor hir o sicrhau bod digartrefedd, pan fydd yn digwydd, yn brin, yn fyr ac nad yw'n cael ei ailadrodd. Roedd y gwaith hwn yn mynd rhagddo cyn y pandemig ac mae'r argyfwng wedi ei gyflymu. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol lunio cynlluniau i drawsnewid y gwasanaethau a'r llety a gynigir ledled Cymru i helpu'r rhai mewn llety dros dro (gan gynnwys y rhai a oedd yno cyn y pandemig) ar hyn o bryd i symud i gartref tymor hir, yn ogystal â sicrhau dewisiadau addas ac urddasol i'r rhai sy'n wynebu digartrefedd yn y dyfodol.

Rydym wedi gosod safonau a disgwyliadau uchel iawn o ran ansawdd y cartrefi yr ydym am i bawb eu cael. Bydd y gwaith trawsnewid yn cymryd nifer o flynyddoedd ond bydd ein buddsoddiad sylweddol yn ein helpu i gyflawni'r gwaith yn gynt.

Mae Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi hyd at £50m yn ychwanegol yn 2020/21 i gefnogi cam nesaf ein hymateb i ddigartrefedd. Mae buddsoddiad mor fawr gan Lywodraeth Cymru'n cynrychioli ei huchelgais o roi diwedd ar gysgu allan a digartrefedd yng Nghymru unwaith ac am byth, gan ddiogelu plant cenedlaethau'r dyfodol hefyd.

8. Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol

Mae'r grŵp hwn o argymhellion yn ymwneud ag erthyglau: 28, 29, 30, a 31. Mae'n delio â hawliau i addysg, i chwarae, i ddiwylliant, i'r celfyddydau ac i hamdden.

8.1 Addysg, gan gynnwys hyfforddiant galwedigaethol a chanllawiau

The Committee welcomes the gradual closing of inequality gaps in education attainment and the decreasing use of exclusion from school. However, the Committee is concerned that:

(a) Substantial inequalities persist in educational attainment particularly for boys, children living in poverty, Roma, Gypsy and Traveller children, children with disabilities, children in care and newcomer children;

(b) Among children subject to permanent or temporary school exclusions, there is a disproportionate number of boys, Roma, Gypsy and Traveller children, children of Caribbean descendant, children living in poverty and children with disabilities, and with the exception of Scotland, only children with disabilities have the right to appeal against their exclusion.

(c) Children with disabilities, in particular children with psycho-social disabilities and other “special educational needs”, are often subject to the practice of “informal” exclusion or “taught off-site” to control their behaviour;

(d) Isolation rooms are used for disciplining children;

(e) In Northern Ireland segregation of schools by religion persists;

(f) Many children living in poverty, particularly boys, do not meet the expected level of language development at pre-school level, which has a negative impact on their primary education, hindering their development throughout their life.

The Committee recommends that the State party

(a) Enhance its efforts to reduce the effects of the social background or disabilities of children on their achievement in school and to guarantee the right of all children to a truly inclusive education in all parts of the State party, including for newcomer children without experiences of formal education;

(b) Use the disciplinary measure of permanent or temporary exclusion as a means of last resort only, forbid and abolish the practice of “informal” exclusions, and further reduce the number of exclusions by working closely with social workers and educational psychologists in school and using mediation and restorative justice;

(c) Ensure that children have the right to appeal against their exclusion, and are provided with legal advice, assistance and, where appropriate, representation for those without means;

(d) Abolish the use of isolation rooms;

(f) Taking note of Sustainable Development Goal 4, Target 4.2 on access to quality early childhood development services, allocate sufficient human,

technical and financial resources for the development and expansion of early childhood care and education, based on a comprehensive and holistic policy of early childhood development, with special attention to the children in the most vulnerable situations.

(g) Make children's rights education mandatory.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

<u>Gwahardd o'r Ysgol</u>

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, Gwahardd o ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, yn nodi'n glir mai dim ond fel dewis olaf y dylid gwahardd yn barhaol. Mae gwahardd yn barhaol yn golygu bod yr ysgol yn cydnabod ei bod wedi rhoi cynnig ar bob strategaeth bosibl ar gyfer cefnogi'r disgybl. Os yw'n glir bod disgybl yn parhau i gael trafferth yn yr ysgol, er bod cymorth yn ei le, a'i fod mewn perygl o gael ei wahardd yn barhaol, rydym yn disgwyl i'r ysgol weithio gyda'r awdurdod lleol i ddod o hyd i ysgol arall neu leoliad amgen.

Os bydd disgybl yn cael ei wahardd yn barhaol o ysgol, mae gan rieni a disgyblion hawl i apelio. Os bydd pwyllgor disgyblaeth yr ysgol yn cadarnhau gwaharddiad parhaol, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw asesu anghenion y disgybl a sut mae eu diwallu. Mae rhwymedigaeth yr ysgol i ddarparu addysg yn parhau cyhyd â bod y disgybl ar gofrestr yr ysgol. Rhaid i'r ysgol roi gwybod i'r rhieni am y trefniadau sy'n cael eu gwneud i alluogi'r disgybl i barhau â'i addysg, gan gynnwys gosod a marcio gwaith.

Ar ôl tynnu disgybl oddi ar gofrestr yr ysgol, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau bod addysg addas ar gael i'r disgybl. Mae'r canllawiau'n nodi glir mai'r ffordd orau o weithredu yn achos y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi'u gwahardd yn barhaol yw eu bod yn ymuno ag ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Dylai awdurdodau lleol ystyried a oes angen staff arbenigol i roi cymorth i'r disgybl.

Ni ddylid addysgu dysgwyr wedi'u gwahardd y tu allan i addysg brif ffrwd oni bai fod problemau sylweddol y gellir mynd i'r afael â nhw'n well mewn amgylchedd gwahanol, neu fod cyfnod y disgybl mewn addysg orfodol yn dod i ben a byddai'n afrealistig disgwyl iddynt ddychwelyd i'r ysgol yn llwyddiannus. Os oes gan ddisgybl broblemau sylweddol y gellir mynd i'r afael â nhw'n well mewn addysg heblaw yn yr ysgol, dylai'r awdurdod lleol sefydlu cynllun cymorth bugeiliol sy'n nodi'r camau gweithredu i'w cymryd er mwyn mynd i'r afael â phroblemau'r dysgwr a sicrhau ei fod yn dychwelyd yn ddidrafferth i ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig, neu'n pontio i addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mae Llywodraeth Cymru'n helpu ysgolion i ddeall pam mae plant yn cael problemau a all arwain at ymddygiad sy'n golygu bod disgyblion yn cael eu gwahardd neu mewn perygl o hynny, gan gynnwys ein gwaith i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Mae gan bob plentyn yng Nghymru hawl i addysg ardderchog a hawl i gael cymorth i gael gafael ar yr addysg honno – ni ddylai amgylchiadau plentyn ei rwystro rhag

cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi nifer o bolisïau ar waith i sicrhau bod plant sy'n wynebu anawsterau yn yr ysgol yn cael cymorth i aros mewn addysg.

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r gwaith o sefydlu Canolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) i Gymru. Rhwng 2017 a 2020, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £400k yn y Ganolfan a chafodd £100k ohono ei glustnodi ar gyfer hyfforddiant ymwybyddiaeth o ACE i ysgolion. Bellach mae pob ysgol yng Nghymru wedi cael hyfforddiant ACE. Mae'r hyforddiant, sydd ar gael i bob lleoliad addysgol, yn cael ei gynnig gan y Ganolfan drwy'r consortia rhanbarthol neu i awdurdodau lleol unigol, yn dibynnu ar beth sydd orau ganddynt.

Un o elfennau allweddol o waith y Ganolfan i gefnogi addysg yw datblygu a chyflawni rhaglen hyfforddiant ymwybyddiaeth o ACE, sydd wedi'i chyflwyno ledled Cymru. Mae'r hyfforddiant yn galluogi ysgolion i ddeall ymddygiad a rhoi arferion seiliedig ar ACE ar waith i gefnogi plant sydd mewn perygl o gael eu gwahardd.

Dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol

Mae lles emosiynol, corfforol a meddyliol pob plentyn wrth galon ein system addysg. Bydd y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol yn sicrhau bod iechyd a lles meddyliol yn rhan annatod o ddull gweithredu ysgolion. Un o'r elfennau allweddol o'r rhaglen waith yw datblygu fframwaith i helpu ysgolion i ddatblygu eu dull ysgol gyfan eu hunain. Bydd y fframwaith yn darparu adnoddau i werthuso amgylchedd emosiynol yr ysgol ac i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau. Un o'r agweddau pwysig ar y fframwaith fydd y cymorth yr ydym yn ei roi i ysgolion weithredu ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi'u dylunio i gefnogi disgyblion ag iechyd meddwl gwael, a'u helpu i feithrin cadernid.

Rydym wedi darparu £2.5m yn y flwyddyn ariannol hon i gefnogi datblygiad y dull ysgol gyfan. O'r swm hwn, mae £1.5m wedi cael ei ddarparu i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi eu gweithgareddau lleol eu hunain, gan gynnwys gwella gwasanaethau cwnsela ysgolion drwy weithredu mentrau rhestr aros; ariannu hyfforddiant lles i athrawon; a chychwyn ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth mewn ysgolion i gefnogi disgyblion.

Cwnsela mewn ysgolion

Ers 2013, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu gwasanaeth cwnsela annibynnol mewn perthynas ag anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc yr ardal. Ni ddylid defnyddio gwaharddiad fel rheswm i ddirwyn sesiynau cwnsela plentyn i ben. Os caiff plentyn neu berson ifanc sy'n cael cwnsela ei wahardd dros dro, mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i drefniadau gael eu gwneud i'r unigolyn allu parhau â'i gwnsela naill ai ar dir yr ysgol neu rywle arall yn y gymuned nes bod lleoliad addysg amgen wedi'i ganfod iddo. Yn yr un modd, os caiff plentyn neu berson ifanc ei wahardd yn barhaol, rydym yn disgwyl i drefniadau gael eu gwneud i'r unigolyn allu parhau â'i gwnsela mewn lleoliad addas yn y gymuned. Pan fydd plentyn neu berson ifanc sy'n cael cwnsela (neu sydd ar restr aros am ddarpariaeth o'r fath) yn cael ei wahardd dros dro neu'n barhaol, rhaid i gyswllt yr

ysgol neu'r pennaeth roi gwybod i'r gwasanaeth cwnsela er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth cwnsela yn dal ar gael i'r unigolyn.

Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar

Mae ein polisïau a'n rhaglenni presennol eisoes yn mynd dipyn o'r ffordd tuag at sicrhau bod ein darpariaeth yn canolbwyntio ar ddatblygiad plant a chefnogi teuluoedd, ond byddwn yn gwneud mwy o dan ein gweledigaeth hirdymor, Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar, i ddod â'r ddarpariaeth ynghyd.

Mae dysgu o'r Cynnig Gofal Plant wedi ein hannog i archwilio sut gallwn wella'r system i blant, i ymarferwyr ac i rieni. Mae'r dystiolaeth ryngwladol yn awgrymu mai un system addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar yw'r ffordd ymlaen i Gymru.

Ein man cychwyn yw y dylai pob plentyn gael profiadau difyr o ansawdd uchel mewn unrhyw leoliad addysg a gofal mae'n ei fynychu, dim ots pa fath o leoliad sydd dan sylw.

Byddai unrhyw leoliad sy'n darparu addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar yn gweithio yn ôl yr un egwyddorion sylfaenol, yn canolbwyntio i'r un graddau ar ddatblygiad plant, ac yn meddu ar yr un uchelgais o ran ansawdd uchel. Mae llawer o'r egwyddorion sylfaenol hyn eisoes i'w gweld yng Nghymru yn yr addysgeg Cyfnod Sylfaen uchel ei pharch ac yn y Cwricwlwm newydd i Gymru – dylai lleoliadau fod yn amgylcheddau anogol sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn rhoi llais i blant, yn hybu eu datblygiad a'u creadigrwydd, yn diwallu eu hanghenion unigol, ac yn eu datblygu i fod yn blant annibynnol.

I gefnogi'r broses hon o drawsnewid y ddarpariaeth, bydd addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar yn adeiladu ar gyflawniadau Cynllun presennol y Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar er mwyn cefnogi gweithlu hyderus. Bydd y gweithlu'n cyflawni statws cofrestru proffesiynol, yn cael cymorth i achub ar gyfleoedd dysgu a hyfforddi, a bydd datblygu Fframwaith Ansawdd Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar yn cynorthwyo ei ymarfer.

Mae ein gweledigaeth hirdymor yn golygu cael gwared ar y rhaniad artiffisial rhwng lleoliadau addysg a gofal, gan sicrhau bod yr holl leoliadau sy'n darparu addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar yn cyfrannu'n cyfartal at lesiant a datblygiad plentyn, ac yn cefnogi dewis rhieni a'u gallu i gael gafael ar ddarpariaeth.

Mae hwn yn daith drawsnewid hirdymor dros 10 mlynedd. Rydym eisoes yn cymryd camau ar y daith hon drwy ddatblygu Fframwaith Ansawdd a fydd yn amlinellu'n glir y disgwyliadau o ran ansawdd yng Nghymru, ac yn helpu lleoliadau i'w gwreiddio yn eu hymarfer.

Plant Roma, Sipsiwn a Theithwyr

Yn 2019-20 fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu £10m o gyllid i awdurdodau lleol gefnogi gwasanaethau i ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig. Pwrpas y Grant Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma neu

Deithwyr yw cefnogi gwell canlyniadau i ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig.

Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr difreintiedig a'u cyfoedion yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac rydym yn dal wedi ymrwymo i'r Grant Datblygu Disgyblion am weddill tymor y Senedd hon. Bydd yr ymrwymiad hirdymor hwn yn galluogi ysgolion i wneud penderfyniadau cynaliadwy a hirdymor ynghylch buddsoddi, a fydd yn helpu i nodi rhwystrau rhag dysgu a mynd i'r afael â nhw'n gynnar. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion bellach yn cefnogi carfan ehangach o ddysgwyr i gael tegwch mewn addysg. Nod y newidiadau i'r Grant Datblygu Disgyblion yw cynyddu effaith y grant i sicrhau ein bod yn gallu adeiladau ar y gwelliannau i'n dysgwyr difreintiedig, a'u cynnal.

Hawliau Plant a'r Cwricwlwm Newydd

Mae athroniaeth a dull gweithredu CCUHP wedi'u gwreiddio drwy'r cwricwlwm newydd yn ei gyfanrwydd: mae'r datganiadau ar beth sy'n bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, yn cynnwys yr angen i ddysgwyr ddeall eu hawliau ac ymgysylltu â'r cysyniad o hawliau yn fwy cyffredinol. I gefnogi hyn, mae'r Cwricwlwm arfaethedig i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 yn darparu canllawiau clir ar ddysgu ac addysg hawliau dynol. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad penodol at hawliau plant a CCUHP, ac mae wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad agos â Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Bydd rhaid i benaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion roi ystyriaeth i'r canllawiau hyn wrth ddylunio, mabwysiadu a gweithredu cwricwlwm sy'n cynnwys dysgu am hawliau plant a CCUHP.

Yn ogystal, mae dyletswydd wedi'i gosod ar y cyd ar gyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir; ar berchenogion darparwyr addysg feithrin nas cynhelir a ariennir; ar y cyd ar yr athrawon sy'n gyfrifol am Unedau Cyfeirio Disgyblion, y pwyllgorau rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion a'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am Unedau Cyfeirio Disgyblion; ac ar awdurdodau lleol wrth gomisiynu addysg heblaw mewn ysgol neu Uned Cyfeirio Disgyblion. Y ddyletswydd yw hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau i'w staff addysgu.

Bydd y ddyletswydd yn gefnogol i'r staff hynny sy'n darparu addysgu a dysgu yn y cwricwlwm, gan helpu i roi iddynt yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i sicrhau bod yr hawliau a ddiogelir gan y Confensiynau yn rhan ganolog o'u harferion addysgu bob dydd wrth gynllunio a chyflwyno eu cwricwlwm.

8.2 Gorffwys, hamdden a gweithgareddau diwylliannol ac artistig

The Committee welcomes the initiative of the government of Wales to adopt a play policy and integrate children's right to play systematically in relevant legislation and other relevant policies. However, the Committee is concerned about:

(a) The withdrawal of a play and leisure policy in England, and under-funding of play and leisure policies in Northern Ireland, Scotland and Wales;

(b) Insufficient places and facilities for play and leisure for children, in particular those accessible for children with disabilities and children in marginalized and disadvantaged situations, as well as public space for adolescents to socialize.

With reference to its general comment No 17 (2013) on the right of the child to rest, leisure, play, recreational activities, cultural life and the arts, the Committee recommends that the State party, including the governments of devolved administrations:

(a) Strengthen its efforts to guarantee the right of the child to rest and leisure and to engage in play and recreational activities appropriate to the age of the child, including by adopting and implementing play and leisure policies with sufficient and sustainable resources;

(b) Provide children, including those with disabilities and children in marginalized and disadvantaged situations, with safe, accessible, inclusive and smoking-free spaces for play and socialization and public transport to access such spaces;

(c) Fully involve children in planning, designing and monitoring the implementation of play policies and activities relevant to play and leisure, at community, local and national levels.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

<u>Plant yn Chwarae yng Nghymru</u>

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd statudol o hyd i gysylltu â'u partneriaid i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i'r holl blant yn eu hardal. Mae pob awdurdod lleol yn cynnal Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae bob tair blynedd, gan gyflawni cynlluniau gweithredu blynyddol yn ystod y blynyddoedd yn y canol. 'Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae' yw'r canllawiau statudol sy'n helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd. Mae Mater B: Diwallu anghenion amrywiol yn datgan y dylai awdurdodau lleol anelu at gynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac yn annog pob plentyn i chwarae a dod ynghyd. Dylai gydnabod y gallai fod rhwystrau yn atal rhai plant rhag manteisio ar yr amrywiaeth o gyfleoedd chwarae yn eu hardal. Gallai hyn fod o ganlyniad i anabledd/nam; gwerthoedd diwylliannol cymunedau'r plant eu hunain; neu ffactorau amgylcheddol neu agweddol eraill. Dylai'r asesiad nodi i ba raddau y mae'r cyfleoedd chwarae:

- yn briodol i ofynion plant o gymunedau a diwylliannau amrywiol, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd gwledig diarffordd.
- yn briodol i ofynion plant Cymraeg eu hiaith.
- yn hygyrch i blant anabl ac yn eu cynnwys, a gall gynnwys cymorth i fanteisio ar gyfleoedd chwarae.

Cafodd yr Asesiadau diweddaraf o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae eu cynnal yn 2019 ac maen nhw'n dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud, er gwaethaf

problemau o ran cyllid a chapasiti staff. Mae adrannau a meysydd polisi yn dal yn gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth, ond mae rhagor i'w wneud ar lefel leol a chanolog.

Pan gyflwynwyd y ddyletswydd Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, cytunwyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru na fyddai cyllid yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol, ond, pe bai cyllid ar gael, y byddai'n cael ei ddyfarnu. Ers cyflwyno'r ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn 2013, mae hyd at £13.7m o gyllid wedi bod ar gael i awdurdodau lleol.

Yn 2019-20, dyfarnwyd £5,000 i awdurdodau lleol i ganiatáu iddynt gyflawni rhai o'r camau gweithredu oren a choch yng Nghynlluniau Gweithredu eu Hasesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Ym mis Gorffennaf 2020, darparodd Llywodraeth Cymru £1.6m drwy Gronfa Galedi Awdurdodau Lleol i alluogi awdurdodau lleol i wella'r cyfleoedd gofal plant a chwarae i blant a phobl ifanc rhwng 5 ac 16 oed y mae angen cymorth ychwanegol arnynt dros yr haf.

Yn 2020-21, mae £500,000 o gyllid refeniw wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i gyflawni eu dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae drwy wella cyfleoedd chwarae, fel cynlluniau chwarae a gweithgareddau gwaith chwarae eraill i blant a phobl ifanc yn ystod y gwyliau hyd at ac yn cynnwys Pasg 2021. Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth i blant anabl, plant sy'n siarad Cymraeg a phlant agored i niwed.

Ar ben hynny, mae £3m o gyllid cyfalaf wedi bod ar gael i awdurdodau lleol i gefnogi cyfleoedd chwarae i blant ymhellach drwy agor mannau chwarae a oedd wedi aros ar gau gan fod angen adnewyddu neu drwsio'r cyfarpar. Mae'r cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i wella profiadau chwarae awyr agored plant drwy gael gwared ar rai o'r rhwystrau i fannau chwarae sy'n wynebu plant anabl a'u teuluoedd.

Hefyd fe wnaeth Llywodraeth Cymru gynhyrchu canllawiau ar fesurau ataliol er mwyn gallu agor meysydd chwarae o 20 Gorffennaf 2020 ymlaen. Mae meysydd chwarae ledled Cymru wedi aros ar agor hyd yn oed yng nghanol cyfyngiadau lefel rhybudd pedwar Cynllun Rheoli'r Coronafeirws, gan ddangos y pwysigrwydd yr ydym yn ei roi ar gyfleoedd chwarae i blant a hawliau plant. Mae gallu defnyddio meysydd chwarae a chyfarpar chwarae yn rhan bwysig o gefnogi plant yng nghanol yr amgylchiadau heriol sydd wedi'u hachosi gan bandemig Covid-19.

Meysydd Chwarae Hygyrch

Rydym hefyd am gynyddu'r ddarpariaeth o feysydd chwarae hygyrch, gan sicrhau bod pob plentyn yn gallu parhau i gael mynediad cyfartal at feysydd chwarae. Yn 2017, fel rhan o'i waith wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, datblygodd Chwarae Cymru ei becyn cymorth *'Creu mannau chwarae hygyrch'*, a oedd wedi'i ddylunio i ddarparu gwybodaeth glir a chryno i helpu i greu mannau chwarae sy'n galluogi pob plentyn i ymuno, yn ogystal â ffrindiau a theulu.

Mae'n cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i bwriadu i helpu i ddeall a mynd i'r afael â meysydd pryder, ac yn darparu adnoddau a thempledi ymarferol cam-wrth-gam ar gyfer gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â chael gwared ar y rhwystrau i fannau chwarae sy'n wynebu plant anabl a'u teuluoedd. Bwriad y pecyn cymorth yw cynorthwyo awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned, gwleidyddion ar bob lefel, cynllunwyr mannau agored, cymdeithasau tai, a rheolwyr parciau a meysydd chwarae wrth ddatblygu ac uwchraddio mannau chwarae hygyrch.

Roedd awdurdodau lleol wedi gweithredu gwaharddiad gwirfoddol ar ysmygu yn eu meysydd chwarae lleol cyn i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno ac mae gan bob un feysydd chwarae di-fwg. Mae pob un wedi ystyried Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 sy'n cynnwys mesur i wahardd ysmygu mewn meysydd chwarae cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cynnwys unrhyw fan wedi'i ddylunio neu ei addasu i blant ddefnyddio un neu fwy o eitemau maes chwarae. Daeth y rheoliadau cysylltiedig, Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020, i rym ar 1 Mawrth 2021.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu £360,000 o gyllid bob blwyddyn i Chwarae Cymru roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar bob maes polisi sy'n effeithio ar gyfleoedd chwarae, helpu awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae a darparu gwasanaeth ymchwil, gwybodaeth a chyngor er budd yr holl randdeiliaid mewn cysylltiad â chyfleoedd chwarae. Hefyd, dyfarnwyd £200,000 o gyllid ychwanegol i Chwarae Cymru yn 2020-21 i roi cymorth i blant a'u teuluoedd yn ystod pandemig Covid-19, gan gynnwys datblygu adnoddau i deuluoedd a'r sector gwaith chwarae. Mae Chwarae Cymru hefyd wedi parhau i ddatblygu ei ymgyrch a'i wefan 'Plentyndod Chwareus'. Yn ogystal â helpu rhieni drwy awgrymiadau a syniadau defnyddiol, mae'r ymgyrch wedi'i hanelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant er mwyn darparu syniadau ymarferol ar gyfer rhoi digon o gyfleoedd chwarae da i blant.

Cyfraniad Plant i Gynlluniau

Yn 2021, bydd Chwarae Cymru'n hwyluso cyfres o weithdai i swyddogion Cyfleoedd Chwarae Digonol ystyried ymgysylltu â phlant a'u cynnwys yn ystyrlon er mwyn dylanwadu ar yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i'w cyflwyno fis Mawrth 2022.

Drwy'r broses Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae statudol, mae pob awdurdod lleol yn ymgynghori â phlant ac mae'r gweithgarwch hwn yn dylanwadu ar yr Asesiadau a'r cynlluniau gweithredu a gyflwynir i Lywodraeth Cymru. Mae cynnydd wedi'i wneud yn lleol o ran datblygu ymgysylltiad mwy ystyrlon â phlant. Yn ogystal ag arolygon traddodiadol, mae'r dulliau'n cynnwys grwpiau ffocws â phlant ar y cyrion, archwiliadau chwarae lleol, a chefnogi gwaith eirioli. Mae plant mewn llawer o ardaloedd wedi cael eu hannog a'u cefnogi i wneud cyflwyniadau i swyddogion llywodraeth leol a swyddogion etholedig. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyfeirio at yr adroddiad 'Rwy'n dysgu pethau newydd ac yn dringo coed' – Yr hyn sydd gan blant i'w ddweud am chwarae yng Nghymru i ddylanwadu ar yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.

Yn 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae sy'n cael ei gynnal ar y cyd â'r sector chwarae ac ar draws adrannau Llywodraeth Cymru sy'n dylanwadu ar gyfleoedd chwarae. Bydd yr adolygiad, a

gafodd ei oedi o ganlyniad i Covid-19 a'i ailddechrau yn 2021, yn ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfleoedd chwarae, ac a yw'r weledigaeth honno'n dal yn berthnasol. Bydd hefyd yn ystyried nifer o faterion pwysig ac ailadroddol i'r sector, sy'n cynnwys agweddau rheoleiddiol, Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, gwaith traws-bolisi, y gweithlu, cyllid, cyfiawnder gofodol a chyfranogiad cymdeithas. Gan fod nifer o newidiadau deddfwriaethol allweddol wedi digwydd ers yr adolygiad diwethaf o bolisi chwarae yn 2014, pan gyhoeddwyd *Cymru: gwlad lle mae cyfle i chwarae*, bydd yr adolygiad yn dylanwadu ar sut mae Llywodraeth Cymru'n datblygu'r agenda chwarae yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori â phlant a phobl ifanc ynghylch yr adolygiad hefyd.

9. Mesurau Diogelu Arbennig

Mae'r grŵp hwn o argymhellion yn ymwneud ag erthyglau 22, 30, 32, 33, 35, 36, 37(b-d), a 38-40. Mae'n delio â'r trefniadau diogelu arbennig ar gyfer plant gan gynnwys mewnfudo, lloches a chyfiawnder troseddol.

9.1 Plant mudol, plant sy'n ffoaduriaid, a phlant sy'n ceisio lloches

The Committee welcomes the decision made by the State party in December 2010 to end the detention of children for immigration purposes. Nevertheless, the Committee is concerned that:

(a) Reliable data on asylum-seeking children, including those whose age is disputed, remain unavailable;

(b) Not all unaccompanied children have access to an independent guardian or legal advice in the course of immigration and asylum procedures;

(c) Under the "Assessing Age" Asylum Instruction of the Home Office, children can be assessed as adults based on their physical appearance;

(d) Children can be detained in the course of asylum processes, including in short-term holding facilities at the entry into the State party, and age disputed children seeking asylum can be detained in adult facilities;

(e) Unaccompanied and separated refugee children within and outside of the State party face restrictions on family reunification;

(f) Asylum-seeking, refugee and migrant children and their families face difficulty in accessing basic services, such as education and health care, and are at high risk of destitution;

(g) The Immigration Act (2016) removed the entitlement of unaccompanied children in care with an irregular or unresolved immigration status to leaving care support and adopted the 'deport first, appeal later' scheme which allows migrants to appeal against the refusal of their stay only from outside of the UK, including in cases where such deportation might undermine family unity for migrant children.

(h) Children are returned to the country of origin or habitual residence without adequate safeguards.

With reference to its general comment No. 6 (2005) on treatment of unaccompanied and separated children outside their country of origin, the Committee recommends that the State party:

(a) Systematically collect and publish disaggregated data on the number of children seeking asylum, including those whose age is disputed;

(b) Establish statutory independent guardians for all unaccompanied and separated children throughout the State Party;

(c) Conduct age assessments only in cases of serious doubt through multidisciplinary and transparent procedures taking into account all aspects, including the psychological and environmental aspects of the person under assessment;

(d) Cease the detention of asylum-seeking and migrant children;

(e) Review its asylum policy in order to facilitate family reunion for unaccompanied and separated refugee children within and outside of the State party, including through implementation of the EU Dublin III regulation;

(f) Provide sufficient support to migrant, refugee and asylum-seeking children to access basic services;

(g) Review the Immigration Act (2016) in order to ensure its compatibility with the Convention;

(h) Ensure that when the return of children occurs, this happens with adequate safeguards, including a formal best interests determination, effective family tracing that includes individual risk and security assessments, and appropriate reception and care arrangements.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

<u>Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches</u>

Yng nghyd-destun y gwasanaethau eraill sydd ar gael, hy gwasanaeth Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol, dyletswyddau i ddarparu eiriolaeth i Blant sy'n Derbyn Gofal o dan Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'r eiriolaeth anghydfod ynghylch oedran a ddarperir drwy Raglen Hawliau Lloches Llywodraeth Cymru, mae rhywfaint o ystyriaeth wedi'i rhoi i'r angen i ddarparu cymorth eiriolaeth ychwanegol i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Mae'r gwaith wedi'i oedi o ganlyniad i'r pandemig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu a/neu asesu hyfforddiant asesu oedran i weithwyr cymdeithasol ac eiriolwyr, ac mae Pecyn Cymorth Asesu Oedran

diwygiedig drafft wedi cael ei baratoi, gan ystyried deddfwriaeth gofal cymdeithasol Cymru a newidiadau i gyfraith achosion. Bydd yn cael ei cyhoeddi yng ngwanwyn 2021.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ystod o gyngor a chanllawiau i weithwyr cymdeithasol, i ofalwyr maeth ac mewn 10 iaith i blant sy'n ceisio lloches. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cefnogi ariannu lleoliadau i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.

9.2 Gweinyddu cyfiawnder ieuenctid

The Committee notes that the Scottish government is open to raising the minimum age of criminal responsibility and that an Advisory Group was established to explore these issues and develop recommendations for consultation (2016). The Committee also notes that Montserrat's Criminal Justice Bill, due to be enacted in 2016, will raise the minimum age from 10 to 12 and reform the Juvenile Justice System to protect the rights of children accused of committing offences, and that the Virgin Islands, with assistance of UNICEF Caribbean, plans to develop a comprehensive Juvenile Justice Strategy . However, the Committee is concerned that:

(a) The minimum age of criminal responsibility remains 8 years of age in Scotland and Turks and Caicos Islands and 10 years for the rest of the State party;

(b) Some children are tried in adult courts;

(c) Life imprisonment of children, in the form of "detention during Her Majesty's pleasure" in England and Wales, "detention during the please of the Secretary of State" in Northern Ireland and "detention without limit of time" in Scotland, is mandatory for murder committed while the offender was under the age of 18;

(d) The number of children in custody remains high, with disproportionate representation of ethnic minority children, children in care, and children with psycho-social disabilities, and detention is not always applied as a measure of last resort;

(e) There are occasions where children are held in the same places of deprivation of liberty for adults;

(f) Access to education and health services, including mental health services, is insufficient for children in custody;

(g) Segregation, including solitary confinement, is sometimes used for children in custody, including in Young Offending Institutions.

With reference to its general comment No. 10 (2007) on children's rights in juvenile justice, the Committee recommends the State party to bring its juvenile justice system, including in all devolved administrations, the Overseas Territories and the Crown Dependencies, fully into line with the Convention and other relevant standards. In particular, the Committee recommends that the State party:

(a) Raise the minimum age of criminal responsibility in accordance with acceptable international standards;

(b) Ensure that children in conflict with the law are always dealt with within the juvenile justice system up to the age of 18, and that diversion measures do not appear in children's criminal records;

(c) Abolish the mandatory imposition of life imprisonment for children for offences committed while they are under the age of 18;

(d) Establish the statutory principle that detention should be used as a measure of last resort and for the shortest possible period of time and ensure that detention is not used discriminatorily against certain groups of children;

(e) Ensure that child detainees are separated from adults in all detention settings;

(f) Immediately remove all children from solitary confinement, prohibit the use of solitary confinement in all circumstances, and regularly inspect the use of segregation and isolation in child detention facilities.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Cyfiawnder Ieuenctid

Mae'r Glasbrintiau ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a Throseddwyr Benywaidd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019 yn nodi ein dull gweithredu ar gyfer cyflawni gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru. Mae gan y dull hwn ffocws clir ar atal ac ymyrryd yn gynnar, gan ganolbwyntio ar sut rydym yn darparu cymorth i wyro pobl oddi wrth drosedd, ond yn mabwysiadu agwedd gyfannol ac adferol at y rhai sydd yn troseddu.

Er bod nifer y bobl ifanc yn y ddalfa yng Nghymru wedi lleihau'n sylweddol, mae llawer yn y ddalfa i ffwrdd o'u cartref, eu teulu a'u cymunedau. Mae'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn nodi ymrwymiad i edrych ar sut gall gwasanaethau datganoledig a heb eu datganoli gydweithio i wireddu hawliau plant, a datblygu system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru sydd ag egwyddorion seiliedig ar hawliau wrth ei gwraidd.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru drwy'r Grant Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc Sydd Mewn Perygl o Droseddu eisoes yn cynnig cymorth ataliol a dargyfeiriol i bobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru.

Mae'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn amlinellu ein dyhead i ddatblygu system cyfiawnder ieuenctid sy'n trin plant â thegwch a pharch. Rydym yn anelu at leihau nifer y plant yn y system drwy atal a dargyfeirio'n effeithiol, a mynd i'r afael â'r bregusrwydd sy'n arwain at droseddu yn aml.

9.3 Plant sy'n dioddef troseddau ac yn dystion i droseddau

The Committee is seriously concerned that children who are victims or witnesses of crimes have to appear in court to be cross examined.

The Committee recommends that the State party introduce, as a standard, video recording of the interview with a child victim or witness during investigation and allow the video-recorded interview as evidence in court.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Plant sy'n Ddioddefwyr ac yn Dystion

Nid yw plismona wedi'i ddatganoli yng Nghymru. Mae'n dal yn gyfrifoldeb i Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU.

I gefnogi pob plentyn sydd wedi dioddef caethwasiaeth fodern yng Nghymru, ers mis Ionawr 2017 mae gennym raglen Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol ar waith, sydd wedi'i hariannu gan y Swyddfa Gartref a'i gweithredu gan Barnardo's Cymru. Mae'r rhaglen yn darparu cymorth i blant sy'n cael eu hatgyfeirio i broses y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a threfniadau diogelu awdurdodau lleol. Mae'r rhaglen yn rhan o'r trefniadau o dan adran 48 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

10. Protocolau Dewisol y Cenhedloedd Unedig, Offerynnau Hawliau Dynol

Mae'r grŵp hwn yn delio â Phrotocolau Dewisol y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â gwerthu plant, puteindra plant, pornograffi, gwrthdaro arfog, y weithdrefn gyfathrebu, cadarnhau offerynnau hawliau dynol, a chydweithredu rhanbarthol.

10.1 Dilyniant i argymhellion ac arsylwadau terfynol blaenorol y Pwyllgor mewn cysylltiad â'r Protocol Dewisol ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

The Committee welcomes the ratification of the Council of Europe Convention on Action against Trafficking in Human Beings, as well as new legislation in this area, including the Modern Slavery Act (2015), the Human Trafficking and Exploitation Act (Northern Ireland) (2015), the Human Trafficking and Exploitation Act (Scotland) (2015), and the introduction of an independent statutory guardian for all unaccompanied children in Northern Ireland and Scotland, and for all potential child victims of trafficking in England and Wales.

The Committee also notes the commitment of the United Kingdom in the fight against all forms of violence against children, including sexual abuse, exploitation and trafficking of children. Nevertheless, the Committee remains concerned that:

(a) No measures have been taken to ensure that all children up to 18 years of age are protected from all types of offences covered by the Optional Protocol and to ensure that domestic legislation throughout the State party, including at

devolved level, enables it to establish and exercise extraterritorial jurisdiction, without the dual criminality criterion, over all offences covered by the Optional Protocol;

(b) The system for identification and referral of victims of the offences covered by the Optional Protocol and children who are at risk of being victims of such offences is weak;

(c) Child victims of trafficking can still be prosecuted for the crimes that they are forced to commit in the context of trafficking, and the right to a statutory guardian for child victims of trafficking has not been fully operationalized in the State party;

(d) While the Acts adopted in 2015 provide further protection to children up to 18 years of age from offences covered by the Optional Protocol, the Sexual Offences Act (2003) in England and Wales and the Sexual Offences (Northern Ireland) Order (2008) have not been revised to provide full and equal protection to all children under 18 years of age;

The Committee recommends that the State party fully implement the Committee's recommendations on the initial report of the State party (CRC/C/OPSC/GBR/CO/1), provided in its concluding observations on the Optional Protocol on the sale of children, child prostitution and child pornography in particular that the State party:

(a) Ensure that all children up to 18 years of age are protected from all types of offence covered by the Optional Protocol and that domestic legislation throughout the State party, including in its devolved administrations, enables it to establish and exercise extraterritorial jurisdiction, without the dual criminality criterion, over all the offences covered by the Optional Protocol;

(b) Strengthen the National Referral Mechanism for identifying trafficked and exploited children which is embedded in existing child protection procedures;

(c) Establish mechanisms and procedures to protect the rights of child victims of offences covered by the Optional Protocol, including establishing a clear obligation of non-prosecution, and ensure that they are treated as victims rather than criminals by the law enforcement and judicial authorities;

(d) Operationalize the provision of a competent and statutory guardian during the criminal justice process;

(e) Revise its legislation to ensure that all children up to 18 years of age are protected from all types of offence covered by the Optional Protocol.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Masnachu Plant ac Atal Caethwasiaeth

Mae caethwasiaeth fodern a'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn gyfrifoldeb i'r Swyddfa Gartref, ac nid ydynt wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru'n cefnogi arferion diogel cyson, seiliedig ar dystiolaeth ar draws asiantaethau ac ar draws Cymru. Cafodd nifer o Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan eu cyhoeddi gyda'r Gweithdrefnau ac maen nhw'n cynnwys canllaw ymarfer ar ddiogelu plant sydd mewn perygl o gael eu masnachu. Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu i gefnogi'r broses o roi'r Gweithdrefnau a'r canllawiau ar waith. Mae'r canllaw'n darparu cyngor ar y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ac ar gyfeirio plant sydd wedi cael eu masnachu neu sydd mewn perygl o hynny i'r gwasanaeth Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol, sydd wedi'i ariannu gan y Swyddfa Gartref. Mae Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin ar-lein wedi'u cyhoeddi hefyd. Rydym yn aros am gytundeb gan y Swyddfa Gartref i gyhoeddi canllawiau statudol ar ddiogelu plant rhag camfanteisio rhywiol ar y cyd. Mae'r canllawiau'n amlinellu'r berthynas rhwng cam-drin ar-lein, camfanteisio'n rhywiol ar blant a masnachu, ac yn cynnwys mesurau i atal camdriniaeth, i ddiogelu plant sydd mewn perygl ac i helpu plant i adfer.

Nid yw mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yn gyfrifoldeb datganoledig ond mae llawer o'r cymorth mewn cysylltiad â chanlyniadau caethwasiaeth yn gyfrifoldeb gwasanaethau datganoledig. Mae mynd i'r afael â chaethwasiaeth yn gofyn am gamau gweithredu cyd-drefnus ac yn torri ar draws ffiniau'r pedair Llywodraeth yn y DU. Cafodd yr ymateb i gaethwasiaeth yng Nghymru ei atgyfnerthu gan benodiad Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth Llywodraeth Cymru.

Ym mis Ionawr 2013, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru, sy'n darparu arweiniad strategol ar fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yng Nghymru. Mae'r Grŵp Arwain mewn sefyllfa unigryw i ychwanegu gwerth drwy gyd-drefnu'r cydweithrediad ar draws partneriaid er mwyn cynllunio a chefnogi'r ddarpariaeth yng Nghymru, gan gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer atebion amlasiantaeth i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern.

Mae'r Grŵp Arwain yn casglu ynghyd y partneriaid amlasiantaeth perthnasol yng Nghymru o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Ymysg y rhain mae Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, yr Heddlu, yr Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Diogelu, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, BAWSO, New Pathways, Barnardo's Cymru, y byd academaidd ac UNICEF UK.

Mae Cymru'n gweithredu'r gwasanaeth Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol, sy'n cael ei weithredu gan Barnardo's Cymru. Mae'n sicrhau bod cymorth cyson yn cael ei ddarparu i blant y camfanteisiwyd arnynt mewn unrhyw ffurf ar gaethwasiaeth fodern. Ers mis Ionawr 2017 mae dros 600 o blant rhwng 10 mis oed a 18 oed wedi cael eu hatgyfeirio i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol gan y gwasanaeth Gwarcheidwaid, ac maen nhw'n cael eu diogelu.

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd gymhleth i ymchwilio iddi a'i herlyn, a dyna pam ein bod wedi gweithio gyda'n partneriaid yn yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i ddatblygu'r Cwrs Caethwasiaeth Fodern a Throseddu Cyfundrefnol. Mae'r cwrs yn ddarpariaeth hyfforddiant tri diwrnod ar y cyd i Uwch Swyddogion Ymchwilio Gorfodi'r Gyfraith, Erlynwyr y Goron ac Eiriolwyr y Goron.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cymorth i ffoaduriaid sy'n dod i Gymru, a fydd yn helpu i liniaru yn erbyn y perygl o gamfanteisio. Mae disgwyl i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern arwain at gynnydd yn nifer yr achosion sy'n cael eu riportio. Drwy well riportio y gallwn helpu i sicrhau bod dioddefwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, a dod â'r rhai sy'n gyfrifol am y drosedd erchyll hon o flaen eu gwell.

10.2 Dilyniant i argymhellion ac arsylwadau terfynol blaenorol y Pwyllgor mewn cysylltiad â'r Protocol Dewisol ar blant mewn gwrthdaro arfog

The Committee remains concerned that:

(a) The State party maintains the wide scope of its interpretative declaration on article 1 of the Optional Protocol which may permit the deployment of children to areas of hostilities and their involvement in hostilities under certain circumstances;

(b) The minimum age for voluntary recruitment as 16 years has not been changed and child recruits makes up 20% of the recent annual intake of United Kingdom Regular Armed Forces;

(c) The Army Board endorsed increasing the recruitment of personnel under 18 years old to avoid undermanning and children who come from vulnerable groups are disproportionately represented among recruits;

(d) Safeguards for voluntary recruitment are insufficient, particularly in light of the very low literacy level of the majority of under-18 recruits and the fact that briefing materials provided to child applicants and their parents or guardians do not clearly inform them of the risks and obligations that follow their enlistment;

(e) In the army, child recruits can be required to serve a minimum period of service up to two years longer than the minimum period for adult recruits.

The Committee recommends that the State party:

(a) Consider reviewing its position and raise the minimum age for recruitment into the armed forces to 18 years in order to promote the protection of children through an overall higher legal standard;

(b) Reconsider its active policy of recruitment of children into the armed forces and ensure that recruitment practices do not actively target persons under the age of 18 and ensure that military recruiters' access to school be strictly limited;

(c) In recruiting persons under the age of 18, strengthen its safeguards required by Article 3 of the Optional Protocol, in order to ensure that the recruitment is genuinely voluntary, and based on fully informed consent of the recruit as well as their parents and legal guardians, and ensure that recruitment does not have discriminatory impact on children of ethnic minorities and low-income families;

(d) Ensure that the minimum period of service applied to children when enlist into the army is no longer than that applied to adult recruits.

The Committee notes with concern that according to the Joint Doctrine Publication 1–10 for Captured Persons (CPERS) (2nd Edition, October 2011), only children under the age of 15 benefit from special protection.

The Committee recommends that the State party implement its previous recommendation on the Optional Protocol on captured child soldiers (CRC/C/OPAC/GBR/CO/1, paragraph 29) for all children under 18 years old.

Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â'r Lluoedd Arfog ac nid yw wedi'i ddatganoli.

10.3 Cymeradwyo'r Protocol Dewisol ar weithdrefn gyfathrebu

The Committee recommends that the State party, in order to further strengthen the fulfilment of children's rights, ratify the Optional Protocol to the Convention on the Rights of the Child on a communications procedure.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r protocol ac yn bwriadu ysgrifennu at Lywodraeth y DU i alw arni i gymeradwyo'r Brotocol Dewisol y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar weithdrefn gyfathrebu (2014).

10.4 Cymeradwyo offerynnau hawliau dynol rhyngwladol

The Committee recommends that the State party, in order to further strengthen the fulfilment of children's rights, ratify the core human rights instruments to which it is not yet a party, namely, the International Convention on the Protection of the Rights of All Migrant Workers and Members of their Families, the International Convention for the Protection of All Persons from Enforced Disappearance, the Optional Protocol to the International Covenant on Economic, Social and Cultural Rights, and the Optional Protocol to the International Covenant on Civil and Political Rights.

Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â gwladwriaeth sy'n barti yn cymeradwyo offerynnau hawliau dynol craidd, felly mae'n fater i Lywodraeth y DU ei ystyried.

10.5 Cydweithredu â chyrff rhanbarthol

The Committee recommends that the State party cooperate with the Council of Europe on the implementation of the Convention and other human rights instruments, both in the State party and in other Council of Europe member States.

Diweddariad Llywodraeth Cymru:

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithredu â Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chyngor Ewrop ar weithredu CCUHP a'i Brotocolau Dewisol.

[i] https://www.diogelu.cymru/int/i1/i1.p1.html